VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Y mgynghoriad ar y cynnig i ailgyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022 trwy:

- **Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode; ac**
- **Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.**

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill fel y bo angen. Cysylltwch â ni ar 01446 700111 i drefnu hyn os gwelwch yn dda.

TABL CYNNWYS

1. Cefndir 1
2. Amlinelliad o'r Broses Ymgynghori 2
3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad 6
4. Casgliad 14
5. Atodiad A – Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol 16
6. Atodiad B – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o blaid y cynnig. 25
7. Atodiad C – Cwestiynau cyffredin. 28
8. Atodiad D - Ymgyngoriadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc. 31
9. Atodiad E - Ymateb Estyn 39
10. Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y Cynnig 42
11. Atodiad G – Ymatebion gan Gyrff Llywodraethu 46

1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021, mewn ymateb i gynigion y Cyngor i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol i geisio sylwadau gan bartïon perthnasol ar newid a reoleiddir fel a ddiffinnir yn "y Cod" sy'n addasu ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgolion Cynradd Evenlode a Cogan o 4 i 3 neu i gynnwys ychwanegu blwyddyn feithrin a dirwyn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan i ben gan arwain at uno Ysgol Feithrin Bute Cottage gydag Ysgol Gynradd Evenlode ac uno Ysgol Feithrin Cogan gydag Ysgol Gynradd Cogan yn cael eu huno.

1.1. CYNNIG 1: UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE TRWY:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser
- Dirwyn Ysgol Feithrin Bute Cottage i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

1.2. CYNNIG 2: UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN TRWY:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses ymgynghori, yn darparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach ynghylch y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

2. AMLINELLIAD O'R BROSES YMGYNGHORI

Fe wnaeth y prosesau ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y prosesau ymgynghori'r cyfle i ymgyngoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

2.1. CYHOEDDI'R YMGYNGHORIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgyngoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 20 Medi 2020. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynigion a oedd dan ystyriaeth, y rhesymeg dros y cynigion a manylion y prosesau ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgyngoreion eu hysbysu ynghylch argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

2.2. YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YN YSTOD YR YMGYNGHORIAD

Cafodd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y ddau ymgynghoriad ynghylch y cynigion ei gyflawni gydag ymgyngoreion penodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fe ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

Tabl 1: Rhestr o grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan	Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned Sili a Larnog	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (PDBCBM)
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cynghorwyr Lleol
Aelodau o Senedd Cymru (ASCau) / Aelodau Seneddol (ASau)	Comisiynydd y Gymraeg

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	

Gwahoddwyd ymgyngoreion i gwblhau ffurflen ar gyfer ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: **www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth**

Dylid nodi bod deiseb ar ran rhanddeiliaid Ysgol Feithrin Bute Cottage wedi cael ei lansio ar 16 Medi 2021 ac wedi cael 1,138 o lofnodion erbyn mis Rhagfyr 2021: **www.change.org/p/vale-of-glamorgan-council-save-bute-cottage-nursery-school?utm_source=share_petition&utm_medium=custom_url&recruited_by_id=ebf3c900-17d8-11ec-a8c6-f3fa967fb711**

Yn wreiddiol roedd y ddeiseb yn cynnwys gwybodaeth y byddai'r cyfnod meithrin yn cael ei adleoli i safle Ysgol Gynradd Evenlode. Newidiwyd hyn yn ddiweddarach i nodi nad oedd adleoli'n rhan o'r cynnig ond y byddai'n flaenoriaeth pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

Cychwynnwyd grŵp Facebook "Achub Bute Cottage" hefyd i rannu gwybodaeth am y cynnig: **www.facebook.com/groups/savebutecottage**

Dim ond ymatebion i'r ymgynghoriad a roddwyd yn ysgrifenedig (naill ai trwy'r post neu'r arolwg ar-lein) sydd wedi cael eu cynnwys mewn ymatebion ffurfiol a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor.

2.3. SYLWADAU HWYR

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 5 Tachwedd 2021. Cafodd y Cyngor y 2 ymateb hwyr canlynol:

- Mairead Canavan ar ran Undeb Addysg Cenedlaethol Bro Morgannwg – daeth i law ar 6 Tachwedd 2021.
- Y Cyngh. Joel James ASC – daeth i law ar 25 Tachwedd 2021.

Yn anffodus, gan bod y sylwadau wedi dod i law ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad nid ydynt wedi cael eu hystyried ymhellach yn yr Adroddiad. I grynhoi, roedd y sylwadau hwyr yn codi'r pryderon canlynol:

- Bydd arbenigedd staff yn cael ei wanhau fel rhan o'r broses uno;
- Diffyg uwch reolwyr ar y safle;

- Dim gofyniad pendant i Gorff Llywodraethu Ysgol Cogan integreiddio rhai o'r llywodraethwyr o Ysgol Feithrin Cogan;
- Risg uchel y bydd staff yn colli swyddi yn y dyfodol;
- Bydd gwaith cymunedol yn cael ei golli oherwydd y newid yn nhrefn lywodraethu'r ysgol feithrin.

Er nad yw'r sylwadau uchod wedi cael eu hystyried yn uniongyrchol yn yr adroddiad hwn, mae'r mwyafrif o bryderon a godwyd wedi cael eu nodi mewn ymatebion eraill a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dylid nodi, os yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol symud i gam nesaf yr ymgynghoriad statudol, bod cyfle arall i wrthwynebu'r cynigion fel rhan o gam yr Hysbysiad Statudol. Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynigion ar y cam hwn wneud hynny. Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn pen 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. Mae'n debygol y bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022. Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod yn neu ar bwys prif fynedfeydd yr ysgolion. Byddai copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff.

2.4. CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan a fynychwyd swyddogion y Cyngor. Amlygwyd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori yn ogystal ag eglurhad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan, a chyda disgyblion cynrychiolaidd o Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan i gynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad D.

2.5. CWESTIYNAU YMGYNGHORI

Gofynnwyd i ymgyngoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol ar y naill gynnig a'r llall:

1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode?

2) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan?

Roedd ymgyngoreion yn gallu ymateb i'r naill gynnig a'r llall trwy ddynodi Ydw, Nac Ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ddau gynnig os oeddent yn dymuno.

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgyngoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

Unrhyw sylwadau eraill?

3. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn ysgrifenedig rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021 eu nodi isod.

3.1. CRYNODEB O'R YMATEBION

Cafwyd 237 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Caiff y dadansoddiad o'r ymatebion i'r naill gynnig a'r llall ei nodi'n fanwl yn y tablau a'r siartiau isod.

Nodwyd na wnaeth pob ymgynghorai ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig, ac roedd yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi hefyd â pha ysgol y maent yn gysylltiedig (os o gwbl) mewn perthynas â'r cynnig, ac roedd yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 2: Yr ymatebion mewn manylder

Atodiad	Disgrifiad
Atodiad A	Ceir crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol ac ymateb y Cyngor i'r materion hynny yn Atodiad A.
Atodiad B	Ceir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B.
Atodiad C	Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C).
Atodiad D	Fe gynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r disgyblion cynrychiolaidd o Ysgol Gynradd Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan, ac Ysgol Gynradd Cogan i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad D.
Atodiad E	Fe ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Mae eu hymateb i'w weld yn Atodiad E.
Atodiad F	Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 14 Hydref 2021. Ceir cofnodion y cyfarfod hwn, lle cymeradwywyd argymhellion y Cabinet, yn Atodiad F.
Atodiad G	Fe gyflwynodd Cyrff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode ymatebion i'r ymgynghoriad. Hefyd, fe ryddhaodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cogan lythyr i gymuned yr ysgol a oedd yn amlygu sut yr oeddent yn bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad. Mae eu sylwadau llawn i'w gweld yn Atodiad G.

3.2. YMATEBION I GYNNIG 1: UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE

Fel y dengys tabl 1 a siart 1 isod, **nid** oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion (71%) o blaid Cynnig 1.

Tabl 3: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Cynnig 1)

Cyfanswm yr ymatebion (unigol):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
238	48	20%	169	71%	21	9%

Siart 1: Rhaniad yr ymatebion a oedd yn gefnogol neu ddim yn gefnogol i Gynnig 1 yn yr ymgynghoriad, a'r ymatebion hynny â dim barn y naill ffordd na'r llall



Fel y dengys tabl 2 a siart 2 isod, **nid** oedd y mwyafrif o'r grŵp mwyaf o ymatebwyr (rhieni neu warcheidwaid) o blaid Cynnig 1. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o aelodau o staff a llywodraethwyr o blaid y cynnig. O ran y dadansoddiad o ymatebwyr, roedd

159 o bobl yn y grŵp rhieni a gwarcheidwaid gyda 79.87% (127 o bobl) ddim yn gefnogol i'r cynnig. Y grŵp nesaf o ymatebwyr o ran maint oedd preswylwyr lleol gyda chyfanswm o 57 o ymatebion wedi dod i law, a 78.95% o'r rheiny ddim yn gefnogol i'r cynnig. Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn rhiant ac yn aelod o staff). Roedd ymatebwyr a'u labelodd eu hunain fel "Arall" yn cynnwys ymgynghorydd gyrfaoedd ac aelod o'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Tabl 4: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (Cynnig 1)

Ymateb yn ôl rôl (A):	Cefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Rhiant neu warcheidwad	18	127	14	159
Taid neu Nain	0	9	0	9
Disgybl	0	0	0	0
Aelod o staff	19	6	4	29
Llywodraethwr	11	4	3	18
Preswylydd Lleol	5	45	7	57
Arall	1	7	0	8

Siart 2: Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (Cynnig 1)



Fel y dengys tabl 3 a siart 3 isod, **nid** oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr â chysylltiad ag ysgol(ion) o blaid Cynnig 1. Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn gysylltiedig ag Evenlode (113 o ymatebwyr); a doedd 65.49% ohonynt **ddim** o blaid Cynnig 1. Cafwyd ymatebion gan bob ysgol y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni ac eithrio Sain Helen lle na chafwyd unrhyw atebion.

Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn gysylltiedig ag Ysgolion Cynradd Evenlode a Cogan). Roedd opsiwn ar gyfer ysgolion "Eraill" wedi'i gynnwys ond ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn hwn.

Tabl 5: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (Cynnig 1)

Ymateb yn ôl ysgol (A):	Cefnogi	Ddim yn cefnogi	Dim barn	Cyfanswm
Evenlode	36	74	3	113
Bute Cottage	5	79	1	85
Ysgol Gynradd Cogan	7	9	12	28
Ysgol Feithrin Cogan	3	15	9	27
Ysgol Gynradd Fairfield	1	4	0	5
Meithrinfa Ddydd Breifat Victoria	0	1	0	1
Stanwell	0	1	0	1
Sain Helen	0	0	0	0
Pob un	0	0	0	0
Dim	0	3	0	3
Arall	0	0	0	0

Siart 3: Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (Cynnig 1)



3.3. YMATEBION I GYNNIG 2: UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN

Fel y dengys tabl 1 a siart 1 isod, roedd y mwyafrif o ymatebion (50%) yn nodi bod ganddynt ddim barn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â Chynnig 2. Fodd bynnag, **nid** oedd 31% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig.

Tabl 6: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Cynnig 2)

Cyfanswm yr ymatebion (unigol) (A):	**Cyfanswm yn gefnogol**		**Cyfanswm ddim yn gefnogol**		**Cyfanswm â dim barn**	
Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
238	47	20%	73	31%	118	50%

Siart 4: Rhaniad yr ymatebion a oedd yn gefnogol neu ddim yn gefnogol i Gynnig 2 yn yr ymgynghoriad, a'r ymatebion hynny â dim barn y naill ffordd na'r llall



Fel y dengys tabl 2 a siart 2 isod, doedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ddim barn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â'r cynnig. Dynododd y grŵp mwyaf o ymatebwyr mai rhieni neu warcheidwaid oeddent (158 o ymatebwyr – yr oedd 29.11% ohonynt o blaid Cynnig 2), gyda phreswylwyr lleol yn dilyn wedyn (21 o ymatebwyr – 36.84% **ddim** o blaid). Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn rhiant ac yn aelod o staff). Roedd ymatebwyr a'u labelodd eu hunain yn "Arall" yn cynnwys gwarchodwyr plant, pobl ag aelodau o'r teulu a oedd wedi mynychu'r Ysgol Feithrin yn y gorffennol, Aelod o'r Senedd a chynrychiolydd Estyn.

Tabl 7: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (Cynnig 2)

Ymateb yn ôl rôl (A):	Cefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Rhiant neu warcheidwad	22	46	90	158
Taid neu Nain	0	5	4	9
Disgybl	0	0	0	0
Aelod o staff	17	5	7	29
Llywodraethwr	10	3	5	18

Preswylydd Lleol	8	21	28	57
Arall	1	5	2	8

Siart 5: Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (Cynnig 2)



Fel y dengys tabl 3 a siart 3 isod, doedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr â chysylltiad ag ysgol(ion) ddim barn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â Chynnig 2. Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn gysylltiedig ag Evenlode (112 o ymatebwyr); yr oedd 19.64% ohonynt o blaid Cynnig 2. Cafwyd ymatebion gan bob ysgol y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni ac eithrio Sain Helen gan na chafwyd unrhyw sylwadau a oedd yn nodi cysylltiad â'r ysgol hon.

Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn gysylltiedig ag Ysgolion Cynradd Evenlode a Cogan). Roedd opsiwn ar gyfer ysgol "Arall" wedi'i gynnwys ond ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn hwn.

Tabl 8: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (Cynnig 2)

Ymateb yn ôl ysgol (A):	Cefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Evenlode	22	16	74	112
Bute Cottage	4	25	56	85

Ysgol Gynradd Cogan	18	10	0	28
Ysgol Feithrin Cogan	9	18	0	27
Ysgol Gynradd Fairfield	0	3	2	5
Meithrinfa Ddydd Breifat Victoria	0	0	1	1
Stanwell	0	0	1	1
Sain Helen	0	0	0	0
Pob un	0	0	0	0
Dim	0	1	2	3
Arall	0	0	0	0

Siart 6: Rhaniad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (Cynnig 2)



4. CASGLIAD

Yn dilyn ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

4.1. ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Roedd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ar gyfer yr ysgolion yn nodi bod Safonau'n 'Dda' yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan, ac yn 'Rhagorol' yn Ysgol Feithrin Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da a bod perfformiad o ran cyrhaeddiad yn gryf.

Yn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad, daeth i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, y ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ym marn y Cyngor, os cymeradwyir y cynigion, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd da. Byddai uno'n datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o deirblwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd. Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg sy'n gyson ar draws pob oed yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir sy'n cael ei ddeall gan blant, rhieni a gofalwyr drwy bob cyfnod o fewn addysg gynradd. Byddai'r cynigion hefyd yn ategu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

4.2. EFFAITH AR Y GYMUNED

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gwblhau a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 8 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol. Ni chafwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystod yr ymgynghoriad.

4.3. TREFNIADAU TEITHIO

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â'r 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin heblaw am y plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol

Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludiant ar gyfer plant i ac o ysgolion.

Gan y byddai'r cyfnodau meithrin yn aros ar eu safleoedd cyfredol gyda'u capasiti presennol, ni ragwelir unrhyw oblygiadau ar gyfer cludiant a threfniadau teithio gan ddysgwyr.

NEWIDIADAU FFEITHIOL YN DILYN DIWEDD Y CYFNOD YMGYNGHORI

Fel rhan o'r ymgynghoriad roedd Tabl 9 o fewn yr Adroddiad Ymgynghori yn yr isadran Dyddiadau Allweddol o dan Adran Y Broses Ymgynghori Statudol yn rhestru'r dyddiadau dangosol ar gyfer y broses statudol. Fodd bynnag, ers i'r ymgynghoriad ddod i ben bu oedi gyda'r broses o gyhoeddi'r Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad oherwydd materion staffio. O ganlyniad, mae'r dyddiadau dangosol a nodwyd dan Dabl 9 yn yr Adroddiad Ymgynghori wedi newid. Ceir tabl o ddyddiadau allweddol wedi'i ddiweddaru isod:

Tabl 9: Dyddiadau allweddol y broses wedi'u diweddaru

Y Broses Statudol	Amserlen
Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori	20 Medi 2021
Dyddiad cau i gyflwyno barn ynglŷn â'r cynigion	5 Tachwedd 2021
Adroddiad ymgynghori i gael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor	10 Ionawr 2022
Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, cyhoeddi Hysbysiad Statudol gan wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwnnw	19 Ionawr 2022
Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	16 Chwefror 2022
Penderfyniad gan y Cabinet gydag adroddiad gwrthwynebu.	28 Mawrth 2022
Hysbysiad o benderfyniad	Ebrill 2022
Rhoi'r cynnig ar waith	Medi 2022

5. ATODIAD A – CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL A GODWYD GAN YMGYNGOREION STATUDOL

Mae'r canlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

5.1. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â'R DDAU GYNNIG:

THEMA 1

Byddai ysgolion meithrin yn colli eu hunaniaeth

Fe gododd ymatebwyr bryderon y byddai ysgolion meithrin Bute Cottage a Cogan yn colli eu hunaniaeth annibynnol pe baent yn cael eu huno â'r ysgolion cynradd.

Mae risg nad yw materion sy'n gysylltiedig â cholli penaethiaid wedi'u neilltuo wedi cael eu hystyried yn llawn.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn symud tuag at fodel 3-11 ar gyfer addysg gynradd. Ystyrir bod hwn yn fodel addysg effeithlon, gan sicrhau darpariaeth gyfartal ledled Bro Morgannwg. Er bod y Cyngor yn deall bod rhai manteision yn gysylltiedig â'r model ysgolion meithrin annibynnol, ni ellid darparu hyn ledled Bro Morgannwg oherwydd y costau uwch sy'n gysylltiedig â rheoli'r ddarpariaeth.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'r Cyrff Llywodraethu'n cael eu cynorthwyo i sicrhau bod y manteision hyn a'r arfer da o'r ysgolion meithrin presennol yn trosglwyddo i'r ysgolion a unwyd. Byddai mesurau pontio'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r broses o uno'r ysgolion a lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â cholli pennaeth wedi'i neilltuo trwy sicrhau uwch dîm arwain sydd ag arbenigeddau priodol yn cael eu hadlewyrchu oddi mewn iddo. Byddai'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda staff a llywodraethwyr i ddatblygu cynllun pontio cynhwysfawr i gadw'r arfer da sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan.

Byddai uno'n ei gwneud yn bosibl cyfuno'r cryfderau presennol yn yr ysgolion meithrin a chynradd sydd ar wahân ar hyn o bryd i gyflawni darpariaeth o ansawdd da a honno'n gweithredu ar draws safleoedd ar wahân. Byddai darpariaeth feithrin yn dal i gael ei gweithredu o'r adeiladau presennol a fyddai'n darparu lefel o wahanu oddi wrth weddill yr ysgol gynradd.

Byddai staff presennol yn trosglwyddo i'r ysgolion a unwyd, gan sicrhau parhad o ran y ddarpariaeth. Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod meithrin wedi'i gynnwys. Byddai hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i gynnig swyddi gwag i lywodraethwyr presennol ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan.

Pe baent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd da. Mae'r cynigion yn hwyluso athroniaeth addysg gyson ar gyfer plant am hyd at 9 mlynedd o addysg ddi-dor, gan felly leihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses o bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu achosion o ddyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Er enghraifft, mae'r ysgolion meithrin annibynnol yn cael eu harolygu gan Estyn ar hyn o bryd a rhaid iddynt gyflwyno ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortiwm Canol De Cymru a Llywodraeth Cymru.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddol, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau a chytundebau lefel gwasanaeth ar y cyd ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill yn golygu bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion a unwyd yn ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd.

Dim ond ag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau y byddai angen i rieni ymgyfarwyddo.

Mae manteision yn gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth feithrin fel rhan o ysgol 3-11 hefyd. Mae hyn yn cynnwys un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod sy'n gallu cefnogi'r broses bontio ar draws cyfnodau addysg. Gall un ysgol 3-11 arwain at gyfathrebu gwell rhwng rhieni a staff hefyd gydag un pwynt cyswllt trwy bob cyfnod mewn addysg gynradd.

THEMA 2

Mae ysgolion meithrin yn teilwra darpariaeth yn benodol ar gyfer disgyblion meithrin

Fe wnaeth ymatebwyr bwysleisio'r cymorth arbenigol y mae'r ysgolion meithrin yn ei ddarparu ar gyfer plant bach ac y byddai hyn yn cael ei golli trwy uno. Roedd pryderon y byddai addysg yn cael ei ffurfioli'n rhy gynnar ac y byddai plant ar eu colled am na fyddent yn cael dysgu trwy chwarae.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r ddwy ysgol feithrin yn rhagorol o ran safonau a darpariaeth ac nid mynd i'r afael â safonau addysg yw diben y cynigion. Byddai'r cynnig hwn yn darparu mantais o ran myfyrio ynghylch rhannu a chael budd o'r arfer gorau yn y sectorau meithrin a chynradd. Fel a nodir uchod, mae'r Cyngor wedi bod yn symud tuag at fodel 3-11 ar gyfer addysg gynradd, gan sicrhau darpariaeth gyfartal ledled Bro Morgannwg. Dyma sydd wedi bod yn digwydd ledled Cymru hefyd. Yn ôl StatsCymru, ar hyn o bryd mae 9 ysgol feithrin a gynhelir ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn 2005/6 roedd 32 o ysgolion meithrin a gynhelir sy'n golygu y bu gostyngiad o 72%.

Pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda staff a llywodraethwyr i gefnogi'r broses o bontio i'r model newydd. Ffocws allweddol y broses bontio hon fyddai sicrhau bod yr ysgolion yn cadw ac yn adeiladu ar arfer gorau a bod y disgyblion yn cael y ddarpariaeth orau gan y cyfnodau meithrin a chynradd.

Mae'n debygol y byddai newidiadau i'r ethos ar y cyfan yn fwy eang fel rhan o bontio i'r cwricwlwm newydd, ond byddai hyn yn gyfle i'r ysgolion meithrin a chynradd adeiladu ar ddulliau llwyddiannus a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae gan bron pob ysgol gynradd ym Mro Morgannwg ei darpariaeth feithrin ei hun. Nid yw deilliannau addysgol neu ddeilliannau o ran datblygiad personol yn y cyfnod meithrin wedi cael eu codi fel pryder mewn unrhyw arolygiadau o ysgolion cynradd eraill. Hefyd, ceir llawer o ddarparwyr meithrin annibynnol ym Mro Morgannwg pe bai rhieni'n dymuno bod eu plant yn mynychu darpariaeth breifat y tu allan i ysgol gynradd.

THEMA 3

Ystyried mai ymarfer lleihau costau oedd y cymhelliad ar gyfer y cynigion

Roedd ymatebwyr yn pryderu mai ymarfer lleihau costau oedd y cymhelliad ar gyfer y cynigion ac y byddai'n arwain at brinder staff neu y byddai'r cyfnod meithrin ar ei golled trwy beidio â chael cymaint o gyllid.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi'r rhesymeg sy'n sail i'r cynigion. Prif ysgogydd y cynigion yw sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y ddarpariaeth gynradd ym Mro Morgannwg, gan hybu'r datblygiad tuag at y model cynradd 3-11.

Mae'r model hwn yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys datblygu parhad a dilyniant yn nysgu plant o deirblwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg sy'n gyson ar draws pob oed yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir sy'n cael ei ddeall gan blant, rhieni a gofalwyr drwy bob cyfnod o fewn addysg gynradd. Byddai'r cynigion hefyd yn ategu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu achosion o ddyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Er enghraifft, mae'r ysgolion meithrin annibynnol yn cael eu harolygu gan Estyn ar hyn o bryd a rhaid iddynt gyflwyno ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortiwm Canol De Cymru a Llywodraeth Cymru.

Dim ond ag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau y byddai angen i rieni ymgyfarwyddo.

Nid yw'r cynigion wedi cael eu hysgogi'n llwyr gan ymarfer lleihau costau; fodd bynnag, nodir yn y ddogfen ymgynghori y byddai'r cynigion yn arwain at arbediad o £140k. Mae'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg yn cael cyllideb ddirprwyedig a bennir gan y fformiwla cyllid ysgolion. Mae dwy adran ar wahân i'r fformiwla: cyllid seiliedig ar ddisgyblion a thaliadau lwmp-swm (neu orbenion). Mae cyllid seiliedig ar ddisgyblion yn dyrannu swm penodedig am bob disgybl ar y gofrestr mewn ysgol a gaiff ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ysgolion. Mae taliadau lwmp-swm neu orbenion yn gostau penodedig sy'n gallu amrywio ar draws ysgolion, ac mae hyn yn cynnwys dyraniadau i ariannu cyflog y pennaeth ac atgyweiriadau a chynnal a chadw. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at ostyngiad yn y costau lwmp-swm gan na fyddai angen pennaeth ar y cyfnod meithrin mwyach. Byddai'r arbediad hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y fformiwla cyllido ar y cyfan a byddai'n arwain at ddosbarthu cyllid ysgolion yn fwy teg.

Fodd bynnag, byddai disgwyl i uwch dimau arwain yr ysgolion meithrin gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol i helpu gyda rheoli'r safleoedd meithrin o ddydd i ddydd. Gallai hyn arwain at ailwerthuso'r lefelau cyflog is i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol. Byddai angen i'r codiadau hyn mewn graddfeydd cyflog is gael eu gwrthbwyso yn erbyn yr arbediad mewn costau lwmp-swm. Byddai unrhyw arbediad yn cael ei ail-fuddsoddi yn y fformiwla cyllido ar y cyfan a byddai'n arwain at ddosbarthu cyllid ysgolion yn fwy teg.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddol, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau a chytundebau lefel gwasanaeth ar y cyd ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill yn gallu golygu bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ill dwy'n cael cyllideb unigol gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan bod y rhan fwyaf o gyllid ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella sefyllfa gyllidebol Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ar y cyfan. Byddai cyllidebau'n cael eu rhannu ar

draws y cyfnodau meithrin a chynradd i alluogi'r holl ddisgyblion yn yr ysgolion i gael mynediad at addysg ac adnoddau o ansawdd da.

Felly o safbwynt addysg ledled y Fro gyfan, byddai mwy o ddisgyblion yn cael budd o ddosbarthu cyllid yn fwy teg.

THEMA 4

Perthnasoedd rhwng yr ysgolion meithrin a'r ysgolion cynradd eisoes yn gweithio

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod perthnasoedd rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin eisoes yn ddigonol ac felly na fyddai angen eu huno i wella yn y maes hwn.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Er bod y Cyngor yn cytuno bod perthnasoedd gweithio da rhwng yr ysgolion cynradd a meithrin, byddai cyfleoedd o hyd ar gyfer mwy o gydweithio a symleiddio cyfathrebiadau rhwng yr ysgolion a chyda rhieni.

Pe baent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd da. Mae'r cynigion yn hwyluso athroniaeth addysg gyson ar gyfer plant am hyd at 9 mlynedd o addysg ddi-dor, gan felly leihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses o bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai'r ysgolion wedi'u huno'n ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond ag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau y byddai angen i rieni ymgyfarwyddo. Byddai mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol i staff hefyd trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o fewn addysg gynradd.

Byddai'r broses uno arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl rhannu arferion addysgegol ar draws staff ym mhob grŵp oedran gan felly sicrhau cysondeb.

THEMA 5

Byddai disgyblion meithrin yn teimlo'u bod wedi'u gorlethu mewn lleoliad mwy

Fe gododd ymatebwyr bryderon y gallai disgyblion yr ysgolion meithrin deimlo'u bod wedi'u gorlethu mewn lleoliad gyda disgyblion ysgol gynradd ac fel rhan o ysgol fwy.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ni fyddai unrhyw gynnydd yn y lleoedd a fyddai ar gael ar y cyfan o ganlyniad i'r cynigion hyn (byddai 4 yn llai o leoedd meithrin rhan-amser ar gael yn Cogan) a byddai cyfnod meithrin yr ysgolion yn aros ar eu safleoedd presennol.

Felly, ni fyddai'r profiad pob dydd yn yr ysgolion yn newid i'r disgyblion meithrin na'r disgyblion cynradd gan na fydd y lleoliadau ffisegol yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn. Un o brif fanteision uno fyddai pontio gwell. Gallai disgyblion gael eu cyflwyno i'r cyfnod cynradd yn raddol trwy gydol y flwyddyn mewn modd anffurfiol trwy drafod gyda rhieni/gwarcheidwaid gan ystyried yr oedran statudol ar gyfer addysg orfodol, a fyddai'n lleihau effaith trosglwyddo ym mis Medi.

THEMA 6

Mae'r rhesymeg sy'n sail i'r cynnig yn aneglur

Cododd ychydig o ymatebwyr bryderon bod y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion a/neu symud yr ysgolion meithrin yn aneglur.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Caiff y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion ei nodi yn y ddogfen ymgynghori yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Ceir manylion penodol ar dudalennau 8-10 a cheir gwybodaeth am y manteision ac anfanteision posibl ar dudalennau 26.

Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion i adleoli'r naill ysgol na'r llall. Felly, ni nodir unrhyw resymeg o fewn y ddogfen ymgynghori gan bod hon yn ymwneud â'r cynigion i uno'r ysgolion cynradd a meithrin a chadw'r ysgolion meithrin ar eu safleoedd presennol.

Pe bai unrhyw gynlluniau i symud yr ysgolion meithrin o'u safleoedd presennol byddai'n rhaid cynnal adolygiad o ddichonoldeb unrhyw gynnig o'r fath a byddai ymgynghoriad ar wahân yn dilyn pe ystyrid bod hyn yn briodol fel rhan o'r broses gynllunio. Fodd bynnag, dylid nodi, pe bai'r ysgolion meithrin yn cael eu symud yn y dyfodol i leoliad gwahanol o fewn 1 filltir i'r lleoliad presennol, na fyddai hyn yn galw atodlen 2 Deddf 2013 i rym mewn perthynas â newid a reoleiddir sy'n ymwneud â throsglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd (sy'n berthnasol i ysgol feithrin a

gynhelir). Mae hyn yn golygu na fyddai gofyniad i gynnal ymgynghoriad statudol ynghylch yr agwedd hon ar gynnig yn y dyfodol pe bai'n digwydd.

5.2. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHYNNIG 1 (UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE):

THEMA 7

Goralw yn Evenlode

Cododd ychydig o ymatebwyr bryderon bod goralw yn barod am leoedd yn Ysgol Gynradd Evenlode, ac y byddai'r cynnig (1) yn gwaethygu'r sefyllfa.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ni fyddai nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael yn newid o ganlyniad i gynnig 1 ac ni fyddai'r trefniadau derbyn a'r meini prawf goralw sydd yn eu lle'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Ni fyddai gan blant ar y gofrestr yn y cyfnod meithrin hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn. Byddai'n ofynnol i rieni gyflwyno cais am le yn eu dewis ysgol. Lle ceir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu gan gymhwyso meini prawf goralw'r Cyngor sy'n blaenoriaethu'r rhai sy'n byw o fewn y dalgylch.

Felly, ni fyddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar y galw am leoedd yn Ysgol Gynradd Evenlode.

THEMA 8

Colli mannau awyr agored a mwy o draffig

Cododd ymatebwyr bryderon y byddai darpariaeth awyr agored yn cael ei cholli ar y safleoedd pe bai'r ysgolion meithrin yn symud lleoliad; roedd y mater hwn wedi'i ganoli'n bennaf ar Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode. Roedd

pryderon hefyd ynghylch symud Ysgol Feithrin Bute Cottage i safle Ysgol Gynradd Evenlode o ran mwy o draffig ac anawsterau gyda threfniadau parcio.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ni fyddai'r naill na'r llall o'r ysgolion meithrin yr effeithir arnynt yn symud safle o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362m fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i roi cymorth i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y cynllun hwn yng nghyd-destun pwysau'r hinsawdd gyfredol a goblygiadau codiadau ym mhrisiau'r diwydiant. Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen i ailddatblygu Ysgol Gynradd Evenlode i gynnwys darpariaeth feithrin ar un safle fel rhan o gynigion yn y dyfodol ar gyfer y rhaglen ysgolion. Fel rhan o unrhyw gynllun byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad llawn o ddichonoldeb a byddai'n rhaid cynnal ymarfer ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio ynghylch unrhyw gynlluniau.

Fodd bynnag, dylid nodi, pe bai'r ysgolion meithrin yn cael eu symud yn y dyfodol i leoliad gwahanol o fewn 1 filltir i'r lleoliad presennol, na fyddai hyn yn galw atodlen 2 Deddf 2013 i rym mewn perthynas â newid a reoleiddir sy'n ymwneud â throsglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd (sy'n berthnasol i ysgol feithrin a gynhelir). Mae hyn yn golygu na fyddai gofyniad i gynnal ymgynghoriad statudol ynghylch yr agwedd hon ar gynnig yn y dyfodol pe bai'n digwydd.

5.3. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHYNNIG 2 (UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN):

THEMA 9

Mae Ysgol Feithrin Cogan yn derbyn disgyblion o'r tu hwnt i ddalgylch Cogan

Fe gododd ymatebwyr bryderon bod disgyblion meithrin o Ysgol Feithrin Cogan yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch. Ystyrir bod hyn yn golygu nad yw disgyblion meithrin yn mynychu Ysgol Gynradd Cogan ond eu bod yn cael budd o'r arlwy Feithrin yn Ysgol Feithrin Cogan cyn mynychu addysg gynradd mewn lleoliad arall.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i dderbyn disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan. Byddai cynnig 2 yn arwain at 96 o leoedd meithrin cyfrwng Saesneg rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan. Mae hyn yn 4 lle meithrin rhan-amser yn llai nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Cogan. Fodd bynnag, mae hyn yn ddigon i ateb y galw yn yr ardal leol (gweler tabl 2 yn yr adran derbyniadau o'r ddogfen

ymgynghori). Heblaw am y mân newid hwn, ni fyddai'r trefniadau derbyn a'r meini prawf goralw ar gyfer derbyn i'r cyfnodau meithrin a chynradd yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Er y nodir nad yw'r holl ddisgyblion meithrin yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan, yn 2021 fe aeth y mwyafrif o ddisgyblion meithrin (62.5% neu 25 o ddisgyblion) ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gynyddol o'i gymharu â 2019 pan oedd canran y disgyblion meithrin a oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Cogan yn 47.91% sydd wedi parhau i gynyddu. Yn 2021 fe aeth gweddill y disgyblion ymlaen i fynychu'r ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Albert – 2.5%
- Dinas Powys – 5%
- Ysgol Gynradd Evenlode – 2.5%
- Ysgol Gynradd Fairfield – 5%
- Ysgol Gynradd Llandochau – 10%
- Y Tu Allan i'r Sir – 2.5%
- Ysgol Gynradd San Joseff – 2.5%
- Ysgol Gynradd Victoria – 5%
- Ysgol Y Deri – 2.5%

Ystyrir bod y rhaniad rhwng ysgolion cynradd eraill yn weddol isel ac mae'n adlewyrchu blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, er bod disgyblion meithrin yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan.

6. ATODIAD B – CRYNODEB O'R YMATEBION A GAFWYD O BLAID Y CYNNIG.

Mae'r adran hon yn darparu'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt yn gynhwysfawr nac wedi'u bwriadu i fod air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

Mae'r holl sylwadau'n ymwneud â'r ddau gynnig (h.y. roedd y sylwadau hyn naill ai i'w cael mewn ymatebion i'r ddau gynnig, neu fe ymddangosodd yr un sylwadau mewn ymatebion ar wahân i gynnig 1 neu 2).

THEMA 1

Trefn lywodraethu a gweledigaeth / polisïau unigol

Nododd ymatebwyr y byddai trefn lywodraethu a gweledigaeth unigol ar gyfer y lleoliadau addysgol o fudd ar gyfer safonau hirdymor a darpariaeth ragorol. Gellid adeiladu ar bolisïau ac arferion o'r cyfnodau meithrin a chynradd. Fe wnaeth ymatebwyr amlygu'r ethos tebyg rhwng yr ysgolion meithrin a chynradd o ran lles disgyblion.

Pwysleisiodd ymatebwyr y byddai amseriad y cynigion, pe baent yn cael eu rhoi ar waith, yn darparu'r cyfle i ddefnyddio dull ar y cyd o integreiddio'r cwricwlwm newydd, a fyddai'n cymryd yr agweddau gorau ar ddulliau ac addysgeg y ddau sefydliad.

THEMA 2

Proses bontio fwy esmwyth a chyfathrebu symlach

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r model 3-11 arfaethedig o fudd i'r dysgu a'r addysgu, ynghyd â chefnogi datblygiad emosiynol a datblygiad lles dysgwyr. Un o'r enghreifftiau a roddwyd yw y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol yr holl ddysgwyr, gan arwain at godi safonau yn y ddau leoliad. Byddai disgyblion meithrin hefyd yn fwy cyfarwydd â'r cyfnod cynradd ac yn ymgyfarwyddo â

hunaniaeth yr ysgol o oedran cynharach a allai helpu i leihau gorbryder yn ystod y broses bontio.

Nododd ymatebwyr y byddai trefniadau a chyfathrebiadau'n haws i rieni â phlant yn y ddau gyfnod addysg. Er enghraifft, cydlynu diwrnodau HMS, amseroedd gollwng a chodi, a dim ond angen ymgyfarwyddo ag un set o bolisïau.

THEMA 3

Effeithlonrwydd o ran arbedion ariannol

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol ac o ran adnoddau trwy ddarbodion maint ac y byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio cyllidebau cyfyngedig mewn modd effeithlon.

THEMA 4

Addysg o oedran cynharach / plant yn deall disgwyliadau clir

Nododd ymatebwyr y byddai cael addysg gan un sefydliad addysgol hefyd yn rhoi mwy o barhad ac yn ei gwneud yn bosibl meithrin perthynas rhwng disgyblion a staff o adeg gynharach yn nhaith addysgol y disgybl.

THEMA 5

Hwyluso profiadau dysgu; diwrnodau gweithgareddau / dysgu ar y cyd

Nododd ymatebwyr y byddai cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu cydweithredol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys diwrnodau gweithgareddau ar y cyd, dathliadau tymhorol a chyngherddau, a phlant llai'n cael eu mentora gan ddisgyblion cynradd.

Adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a materion diogelu yn gynharach

Ni fyddai'r ddarpariaeth ADY bresennol yn cael ei newid o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr y gallai anghenion disgyblion o ran cymorth a diogelu gael eu hadnabod o oedran cynharach a chael eu monitro o fewn un lleoliad data i sicrhau parhad.

7. ATODIAD C – CWESTIYNAU CYFFREDIN.

Mae'r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin wedi'u diweddaru ynglŷn â'r cynnig.

Pe baent yn cael eu rhoi ar waith, beth fyddai'r cynigion yn ei olygu?

Byddai Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu dirwyn i ben a byddai'r holl staff a disgyblion o'r cyfnodau meithrin yn cael eu trosglwyddo i fod dan drefniadau lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei chyflwyno o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

Beth yw'r llinell amser fwriadedig ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith?

Bwriedir y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith erbyn mis Medi 2022.

Sut fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar drefniadau derbyn?

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Caiff yr holl drefniadau derbyn ym Mro Morgannwg eu hadolygu'n flynyddol.

96 o leoedd rhan-amser fyddai'r capasiti ar gyfer y cyfnod meithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan. Ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y nifer derbyn ar gyfer y cyfnod cynradd yn Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan.

Ni fyddai gan blant ar y gofrestr yn y cyfnod meithrin hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn. Byddai'n ofynnol i rieni gyflwyno cais am le yn eu dewis ysgol.

Lle ceir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu gan gymhwyso meini prawf goralw'r Cyngor sy'n blaenoriaethu'r rhai sy'n byw o fewn y dalgylch.

Sut fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y cyrff llywodraethu presennol?

Byddai staff Ysgol Gynradd Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan reolaeth cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Er y byddai cyrff llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu diddymu o fis Medi 2022, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan i adnabod cyfleoedd i lywodraethwyr drosglwyddo i sicrhau parhad.

Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ddiwygio'u cylchoedd gorchwyl a'u strwythur i adlewyrchu bod y cyfnod meithrin wedi'i gynnwys.

A oes angen i mi ymateb i'r ddau gynnig?

Gallwch ymateb i'r naill gynnig neu'r llall neu'r ddau gynnig trwy lenwi'r adrannau perthnasol o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (trwy'r ffurflen neu'r ddolen isod). Nid oes angen i chi ymateb i'r ddau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

7.1. CWESTIYNAU CYFFREDIN NEWYDD:

A all y cyfnod meithrin gynnig lleoedd am ddiwrnodau llawn?

Mae plant yn gymwys i gael lle meithrin rhan-amser, fel arfer pum bore neu bum prynhawn, o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Heblaw am ostyngiad o 4 yn y lleoedd a fydd ar gael yn Cogan, ni chynigir newid i'r trefniadau derbyn o ran cymhwystra fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am dderbyniadau meithrin ar Dudalen We Derbyniadau Meithrin y Cyngor.

A all yr ardd gymunedol gael ei hagor i ysgolion / meithrinfeydd ehangach?

Mater i'r corff llywodraethu fyddai hyn ac nid yw'n agwedd ar y cynnig hwn.

Am faint o amser fyddai'r ddarpariaeth feithrin yn cael ei chynnig o'r safleoedd presennol? Pwy fydd yn cynnig hyn? Ar ba delerau? Am faint o amser?

Byddai Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn aros o fewn eu safleoedd ac adeiladau presennol heb unrhyw gynnydd i'w capasiti cyfredol. Nid oes unrhyw gynllun i newid lleoliad y cyfnodau meithrin fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage wedi'i lleoli 0.7 milltir o Ysgol Gynradd Evenlode. Mae asesiadau wedi canfod bod yr adeiladau presennol mewn cyflwr boddhaol ac yn dda o ran eu haddasrwydd. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, byddai darpariaeth feithrin yn dal i gael ei chynnig o'r adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Evenlode yn cael ei rheoli fel ysgol ar ddau safle.

Mae Ysgol Feithrin Cogan wedi'i lleoli 0.2 milltir o Ysgol Gynradd Cogan. Mae asesiadau wedi canfod bod yr adeiladau presennol mewn cyflwr boddhaol ac yn dda o ran eu haddasrwydd. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, byddai darpariaeth feithrin yn dal i gael ei chynnig o'r adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Cogan yn cael ei rheoli fel ysgol ar ddau safle.

Mae £1.362m wedi'i gynnwys o fewn y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i roi cymorth i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y cynllun hwn yng nghyd-destun pwysau'r hinsawdd gyfredol a goblygiadau codiadau ym mhrisiau'r diwydiant. Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen i ailddatblygu Ysgol Gynradd Evenlode i gynnwys darpariaeth feithrin ar un safle fel rhan o gynigion yn y dyfodol ar gyfer y rhaglen ysgolion. Fel rhan o unrhyw gynllun byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad llawn o ddichonoldeb a byddai'n rhaid cynnal ymarfer ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio ynghylch unrhyw gynlluniau. Fodd bynnag, dylid nodi, pe bai'r ysgolion meithrin yn cael eu symud yn y dyfodol i leoliad gwahanol o fewn 1 filltir i'r lleoliad presennol, na fyddai hyn yn galw atodlen 2 Deddf 2013 i rym mewn perthynas â newid a reoleiddir sy'n ymwneud â throsglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd (sy'n berthnasol i ysgol feithrin a gynhelir). Mae hyn yn golygu na fyddai gofyniad i gynnal ymgynghoriad statudol ynghylch yr agwedd hon ar gynnig yn y dyfodol pe bai'n digwydd.

8. ATODIAD D - YMGYNGORIADAU A GYNHALIWYD GYDA PHOBL IFANC.

8.1. YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y CYNNIG I AIL-GYFLUNIO DARPARIAETH FEITHRIN YM MHENARTH O FIS MEDI 2022 TRWY: UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE; AC UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN.

CEFNDIR

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Ar 13 Medi 2021, fe wnaeth Cabinet y Cyngor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021 ar ddau gynnig i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

- Trefnwyd gweithdy ymgynghori gyda disgyblion Ysgol Gynradd Evenlode ar 5 Hydref 2021 a disgyblion Ysgol Feithrin Bute Cottage ar 20 Hydref 2021 i gasglu eu barn ynglŷn â'r cynnig.

METHODOLEG GYDA PHLANT YSGOL GYNRADD (YSGOL GYNRADD EVENLODE)

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i'r disgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.

- Fe ddechreuodd â thrafodaeth ynglŷn ag ystyr ymgynghori a pham ei bod yn bwysig siarad gyda disgyblion

- Daethpwyd i gytundeb ynghylch beth oedd yn gwneud trafodaeth dda/ymgynghoriad da

- Wedyn cafodd y ddogfen ymgynghori ei hesbonio iddynt, gan gynnwys cefndir a llinell amser y gweithgarwch.

- Rhannwyd y disgyblion yn 2 grŵp i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Wedyn daeth y ddau grŵp ynghyd i gael trafodaeth bellach ynglŷn â'r syniadau

hyn, yn seiliedig ar y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.

- Yn dilyn yr adborth rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am yr anfanteision a'r diffygion a oedd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r llinell amser ac eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

YMATEBION Y DISGYBLION (5 DISGYBL BLWYDDYN 6 – O'R SENEDD YSGOL)

Beth yw ymgynghoriad?

- Trafodaeth
- Cyfle i wrando ar yr hyn rydych yn ei feddwl am rywbeth
- Casglu barn
- Cyfarfod
- Siarad gyda'ch gilydd
- Gofyn cwestiynau

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda:

- Gwrando ar syniadau pobl eraill
- Parch
- Canfod pwy hoffai siarad
- Mae gan bawb eu syniad eu hunain yn y grŵp
- Safbwyntiau gwahanol

Manteision y cynllun arfaethedig

- Maent yn cael ysgol i rannu adnoddau gyda hi
- Mwy o gyllid
- Wynebau ac amgylchoedd cyfarwydd
- Plant hapus
- Os ydych yn hapus, gwaith gwell – mwy o gyfleoedd
- Mynediad at ysgol fwydo dda e.e. Stanwell
- Cyfle i ddysgu offeryn
- Awyrgylch hamddenol
- Ieithoedd gwahanol
- Poblogaeth fwy
- Rhyngweithio rhwng oedrannau
- Diwrnodau agored
- Mwy o staff
- Cyfathrebu gwell
- Dod i adnabod y Pennaeth
- Lefelau hapusrwydd yn codi
- Mwy o gysylltiad ar gyfer cymunedau
- Cydblethu dau endid
- Bod dan yr un pennaeth yn barod felly llai o newid o ran y dysgu
- Rhannu

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Gwariant
- Gwahanu sibling
- Straen ar y pennaeth am fod cymaint i'w wneud
- Effaith o ran ysgol fwydo ar ysgolion cynradd eraill
- Gorboblogi
- Gwahanu teulu – trosglwyddo – trafferth
- Ffioedd am godi estyniad [os oes angen codi estyniad ar y safle]
- Dryswch
- Ffioedd e.e. clwb brecwast a ffioedd ar ôl ysgol

METHODOLEG GYDA PHLANT YSGOL FEITHRIN (BUTE COTTAGE)

- Sgwrs gyda grŵp bach o ddisgyblion a chyfle iddynt drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.

- Cafodd ffocws yr ymgynghoriad ei esbonio iddynt o ran yr Ysgol Gynradd yn mynd i edrych ar ôl yr Ysgol Feithrin.

- Cafwyd sgwrs fer wedyn ynglŷn â phwyntiau da a phwyntiau drwg posibl y datblygiad hwn.

CARFAN: 5 DISGYBL MEITHRIN O YSGOLION CYNRADD LLEOL A OEDD WEDI MYNYCHU BUTE COTTAGE YN FLAENOROL (SILI: 1, SAN JOSEFF: 1, EVENLODE: 3)

Da

- rhannu pethau da rhwng ysgolion

Drwg

- Teimlad cryf y byddent yn colli rhywbeth arbennig
- Hefyd yn colli teganau/pethau da,
- poeni am 'ddwyn' yr athrawon

Pethau y mae'r disgyblion yn eu hoffi am yr ysgol feithrin:

- 'mae cymaint o bethau i chwarae gyda nhw yma'
- ardaloedd awyr agored
- ysgol goedwig
- coginio malws melys uwchben y tân
- dysgu am ddiogelwch
- trenau
- cywion ieir,
- ffrindiau

Pethau y byddai angen iddynt eu cadw [pe baent yn uno]:

- yr athrawon a sut y maent yn eu helpu i ddysgu,
- teimlad (ethos),
- y pethau da

Pleidlais:

2 – o blaid

3 – yn erbyn

8.2. YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I AIL-GYFLUNIO DARPARIAETH FEITHRIN YM MHENARTH O FIS MEDI 2022 TRWY: UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE; AC UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN.

CEFNDIR

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Ar 13 Medi 2021, fe wnaeth Cabinet y Cyngor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021 ar ddau gynnig i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

- Trefnwyd gweithdy ymgynghori gyda disgyblion Ysgol Gynradd Cogan ar 5 Hydref 2021 a disgyblion Ysgol Feithrin Cogan ar 20 Hydref 2021 i gasglu eu barn ynglŷn â'r cynnig.

METHODOLEG GYDA PHLANT YR YSGOL GYNRADD (YSGOL GYNRADD COGAN)

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i'r disgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.

- Fe ddechreuodd â thrafodaeth ynglŷn ag ystyr ymgynghori a pham ei bod yn bwysig siarad gyda disgyblion

- Daethpwyd i gytundeb ynghylch beth oedd yn gwneud trafodaeth dda/ymgynghoriad da

- Wedyn cafodd y ddogfen ymgynghori ei hesbonio iddynt, gan gynnwys cefndir a llinell amser y gweithgarwch.

- Rhannwyd y disgyblion yn 2 grŵp i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Wedyn daeth y ddau grŵp ynghyd i gael trafodaeth bellach ynglŷn â'r syniadau hyn, yn seiliedig ar y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.

- Yn dilyn yr adborth rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am yr anfanteision a'r diffygion a oedd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r llinell amser ac eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i

mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

YMATEBION Y DISGYBLION (CYNRYCHIOLAETH DDA O DDISGYBLION YN AMRYWIO O FLWYDDYN 2 I FLWYDDYN 6 – TUA 10 DISGYBL)

Beth yw ymgynghoriad?

- Cwrdd â phobl i gael eu barn
- Darganfod mwy o bethau
- Dweud beth sy'n digwydd
- Cael syniadau da

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda:

- Gwrando
- Peidio ag ofni rhannu eich syniadau
- Rhoi cyfle i bawb
- Meddwl mewn ffordd wahanol i'r arfer – bod yn greadigol
- Cydweithio

Manteision y cynllun arfaethedig

- Pan fyddant yn mynd i'r ysgol hon, byddant yn adnabod Mrs Sibert
- Byddant yn gallu rhyngweithio a chyfathrebu mwy
- Os ydynt yn cyfathrebu yn awr, rydym yn rhoi cyngor iddynt ar gyfer ein hysgol yn y dyfodol
- Fe allem ni fod yn fodelau rôl da iddynt
- Ar ddiwedd y flwyddyn fe allent chwarae a chwrdd â ni
- Fe allent gymryd rhan yn ein digwyddiadau ni, fe allan nhw ymuno yn y cyngerdd Nadolig
- Fe allent gael cinio gyda ni
- Fe allent gael yr un bathodynnau â ni [h.y. ymdeimlad o berthyn yn barod]
- Gallai'r cefnogwyr cymheiriaid fynd i Ysgol Feithrin Cogan
- Fe allem ni weld mwy ar ein siblingiaid
- Mwy o ryngweithio
- Unwaith yr ydych yn cael lle yn Ysgol Cogan does dim rhaid i chi boeni am gael lle yn Ysgol Gynradd Cogan
- Byddant yn adnabod Mrs Sibert trwy gydol eu hamser yn yr ysgol
- Gall Mrs Sibert fynd i'r cyfnod meithrin i gynnal gwasanaeth
- Fe hoffai Mrs Sibert redeg y ddwy ysgol
- Gall Mrs Sibert redeg mwy o weithgareddau i'r plant
- Fe allwn ni eu helpu gyda'u cyngherddau

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Fe allent roi'r gorau i feddwl drostynt hwy eu hunain
- Os ydym ni'n treulio gormod o amser yno byddant yn gorfod atal eu gweithgareddau dysgu drwy'r amser
- Does arnom ni ddim eisiau rhyngweithio gormod oherwydd bod Covid yn bresennol o hyd

- Peidio â rhoi cyfleoedd i ysgolion meithrin eraill
- Ddylen nhw ddim poeni am blant hŷn yn eu barnu oherwydd mae [angen bod] pawb yn garedig a chynhwysol
- Gormod o waith i Mrs Sibert – gallai ei gwneud yn rhy brysur [i weld disgyblion] felly bydd arni angen cymorth gan ddisgyblion a staff
- Peidio â gwneud iddynt weithio'n rhy galed
- Dydyn nhw ddim yn cael cwrdd â phennaeth newydd pan ydynt yn symud i'r ysgol gynradd
- Bydd llawer o enwau i'w cofio

Sylwadau cyffredinol

Parch mawr tuag at Bennaeth yr Ysgol Gynradd a sut y bydd ei dylanwad o fudd i'r disgyblion meithrin.

METHODOLEG GYDA PHLANT YR YSGOL FEITHRIN (YSGOL FEITHRIN COGAN)

- Sgwrs gyda grŵp bach o ddisgyblion a chyfle iddynt drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.

- Cafodd ffocws yr ymgynghoriad ei esbonio iddynt o ran yr Ysgol Gynradd yn mynd i edrych ar ôl yr Ysgol Feithrin.

- Cafwyd sgwrs fer wedyn ynglŷn â phwyntiau da a phwyntiau drwg posibl y datblygiad hwn.

CARFAN: 5 DISGYBL MEITHRIN (TYMOR CYNTAF – 1 / AIL DYMOR - 4)

Da

Mae Cogan yn ysgol fawr,

Byddai ganddynt deganau newydd,

Byddai'r teimlad yn yr ysgol yr un fath [ddim yn wahanol iawn]

Drwg

Fe allem ni golli'r ysgol feithrin,

Cyfeiriad at ysbrydion [a oedd yn awgrymu bod y cysyniad yn eu dychryn ychydig]?

Peidio ag adnabod yr athrawon

Fe allai fod yn ddrwg oherwydd mae hi'n dda yma

Pethau y mae disgyblion yn eu hoffi ynglŷn â'r ysgol feithrin:

y gegin fwd,

gêm puddle (cyfrifiadur),

toes chwarae,

beiciau,

dringo

h.y. yr ystod ac amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael iddynt

Pethau y byddai arnynt eisiau eu cadw:

Athrawon a gweithgareddau, ddim yn poeni am golli unrhyw beth ond mae arnynt eisiau parhau i chwarae

Pleidlais:

4 – o blaid

1 – yn erbyn

9. ATODIAD E - YMATEB ESTYN

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at Estyn.

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bro Morgannwg i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu eu barn dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

Crynodeb/ Casgliad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi darparu cynnig cynhwysfawr sy'n esbonio'n glir beth yw'r rhesymeg sy'n sail i:

- uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode
- uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, y ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a'r manteision

Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg eglur a chydlynus dros y cynnig hwn. Mae'n dilyn cynllun y Cyngor ar gyfer darparu model addysg gynradd ar gyfer dysgwyr 3-11 oed ledled y sir. Byddai'r cynnig yn golygu bod y ddwy ysgol feithrin annibynnol olaf ym Mro Morgannwg yn cael eu cau, a bod darpariaeth ar gyfer plant o oedran meithrin ar gael yn y ddwy ysgol gynradd olaf nad ydynt yn ei chynnig ar hyn o bryd. Ni fyddai uno'r ysgolion yn golygu newidiadau i ddalgylchoedd na cholli swyddi'n orfodol. Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiadau manwl o'r cynigion ynghyd â'r amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith.

Mae'r cynigydd wedi disgrifio'r manteision posibl yn glir. Er enghraifft, un gyfundrefn llywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod addysg yn y naill ysgol gynradd a'r llall. Maent hefyd yn rhagweld arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chostau rhedeg uwch ar gyfer ysgolion meithrin annibynnol a fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i mewn i fformiwla cyllid yr ysgolion ar y cyfan. Mae hyn yn ychwanegol at gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd trwy ddarbodion maint. Mae manteision eraill yn cynnwys rhagolygon ar gyfer mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o fewn addysg gynradd. Maent wedi nodi cwpl o anfanteision posibl i'r cynnig sy'n cynnwys tarfu wrth i ddisgyblion a staff ymgyfarwyddo â'r trefniadau polisi newydd, a'r posibilrwydd o golli ethos ysgol fach wrth i'r capasiti gynyddu. Yn achos yr ail o'r rhain, nid yw'r cynigydd wedi nodi'n dda sut y bydd yn ymdrin â hyn.

Mae'r Cyngor wedi nodi tair risg bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig, y mae un ohonynt yn ymwneud â'r posibilrwydd o anghydfod rhwng yr ysgolion a unwyd. Mae'r cynigydd yn teimlo'n hyderus y gellir lliniaru'r risg hon trwy sicrhau bod trefniadau pontio cadarn yn cael eu rhoi ar waith ar adeg gynnar wrth fwrw ymlaen â'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r cynigydd wedi ystyried y risgiau a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â cholli pennaeth a neilltuwyd i'r cyfnod meithrin y mae ei ffocws ar ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar effeithiol, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ansawdd y ddarpariaeth addysg.

Fe roddodd y Cyngor ystyriaeth i bedwar dewis arall yn ogystal â'r cynnig a ffefrir ac mae wedi rhestru'r rhesymeg a oedd yn sail i ddiystyru pob un ohonynt mewn modd teg. Byddai pob cynnig arall yn arwain at gostau uwch ac mewn un achos, cryn dipyn o darfu ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio gan ddysgwyr, ond gan nad oes newid i adeiladau na dalgylchoedd, mae'n rhesymol tybio na fydd unrhyw oblygiadau ar gyfer cludiant a threfniadau teithio gan ddysgwyr nac ar gyfer hygyrchedd y ddarpariaeth.

Mae'r cynnig yn nodi manylion niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin sy'n gwasanaethu Penarth a'r ardal gyfagos. Ymddengys fod y cynigion hyn yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i'r dalgylch presennol. Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal gan bod dros 20% o gapasiti gan yr ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu Penarth. Mae'r cynnig yn cyfeirio at y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, ond nid yw'n nodi'n benodol sut y bydd y cynnig o gymorth i gyrraedd y targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Mae'r cynigydd wedi nodi'r achos ariannol dros y cynnig yn glir ynghyd â'r arbedion sy'n gysylltiedig ag ef.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg mewn modd addas, ac mae'n ystyried y byddai'r cynigion yn darparu dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen ac yn rhwyddhau'r broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd. Mae'r cynnig yn ystyried yr wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn yn

dda ar gyfer pob ysgol yr effeithir arni. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn darparu barn yr awdurdod lleol na'r consortiwm rhanbarthol ynglŷn ag ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o'r darparwyr.

Mae'n rhesymol tybio y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i gael ei hadnabod ar adeg gynnar ac y byddai'r cynnig yn ategu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen. Mae'r cynnig yn nodi y byddai tîm arwain a chorff llywodraethu unigol ar draws y naill ysgol a'r llall yn arwain at ddileu achosion o ddyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Mae'r cynnig yn ystyried ffactorau penodol fel a nodir yn y cod mewn perthynas â chau ysgolion ac wrth ychwanegu dosbarth meithrin at ysgol. Mewn perthynas â'r rhain, fe gwblhaodd y Cyngor asesiad o'r effaith ar y gymuned a daeth i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol. Mae'r cynnig hefyd yn annhebygol o effeithio ar sefydliadau, gan gynnwys darparwyr preifat a darparwyr y trydydd sector.

10. ATODIAD F – COFNODION Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT AR Y CYNNIG

Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT CYNGOR BRO MORGANNWG: 14 HYDREF, 2021

ATGYFEIRIAD GAN Y CABINET: 13 MEDI, 2021

"C662 AILGYFLUNIO DARPARIAETH FEITHRIN YM MHENARTH (DL/ER) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Roedd y Cynghorwyr Gray a McCaffer wedi datgan buddiant yn yr eitem ar ddechrau'r cyfarfod ond roedd ganddynt oddefebau fel Llywodraethwyr AALl i aros a phleidleisio yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynnig i ailgyflunio addysg feithrin ym Mhenarth trwy:

- uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode; ac
- uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.

Byddai darpariaeth feithrin yn parhau o fewn yr adeiladau presennol gyda'r trefniadau rheoli ar y cyfan yn cael eu newid.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf roedd y Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgolion cynradd ar gyfer addysg 3 i 11 oed. Roedd hyn wedi cynnwys uno ysgolion babanod a phlant iau, megis yn Ysgol Gynradd Dinas Powys ac Ysgol Gynradd Sain Helen, yn ogystal ag uno darpariaeth feithrin a chynradd ar wahân, megis yn Ysgol Gynradd Tregatwg.

Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan oedd yr unig ddwy ysgol feithrin annibynnol yn y Fro (h.y. endidau ar wahân â'u cyrff llywodraethu a chyllideb ddirprwyedig eu hunain).

Ar yr un pryd, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan oedd yr unig ddwy ysgol gynradd a oedd yn weddill yn y Fro nad oeddent yn cynnig, neu a oedd wedi cymeradwyo cynlluniau i gynnig, darpariaeth feithrin.

Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Bute Cottage yn wag ar ddiwedd mis Awst 2019 ac roedd yn cael ei chyflenwi ar y pryd trwy drefniant camu-i-fyny dros dro. Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Cogan yn wag ar ddiwedd mis Awst 2021 a byddai'n cael ei chyflenwi am un flwyddyn trwy drefniant camu-i-fyny dros dro gydag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor ailgyflunio darpariaeth feithrin mewn ffordd a oedd o fudd i ddisgyblion a staff gan hefyd osgoi colli swyddi'n orfodol.

Cynigiwyd uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage. Byddai hyn yn arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode (ar safle presennol Ysgol Feithrin Bute Cottage). Cynigiwyd hefyd fod Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu huno, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan (ar safle presennol Ysgol Feithrin Cogan).

Prif fanteision y cynnig oedd:

- Pontio mwy esmwyth o addysg feithrin i addysg gynradd ar gyfer disgyblion;
- Cyfathrebu wedi'i symleiddio rhwng rhieni/gofalwyr a staff gydag un pwynt cyswllt trwy bob cyfnod mewn addysg gynradd;
- Un gyfundrefn llywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod addysg yn y naill ysgol gynradd a'r llall;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod mewn addysg gynradd;
- Un set o bolisïau ar draws pob grŵp blwyddyn, gan ymgorffori arfer gorau o'r ysgolion unigol;
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod;
- Creu arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chostau rhedeg uwch ar gyfer ysgolion meithrin annibynnol a fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i mewn i'r fformiwla cyllido ysgolion ar y cyfan;
- Cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ddarbodion maint a chaffael cydgysylltiedig.

Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau a oedd wedi'u cynnwys, ac roedd gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn glir, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithid arnynt. Roedd hon yn weledigaeth na ellid ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr oedd y Cyngor yn eu gwasanaethu.

Byddai ymgynghori'n digwydd gydag ymgyngoreion penodedig yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi Dogfen Ymgynghori, a fyddai'n darparu trosolwg gynhwysfawr o'r cynnig, gan amlinellu unrhyw oblygiadau posibl. Gallai unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy gwblhau ffurflen ar-lein a oedd fyddai'n cael ei lletya ar wefan y Cyngor. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a fyddai'n darparu trosolwg o'r adborth a gafwyd, yn ogystal ag amlinellu ymateb y Cyngor i unrhyw fater a godwyd. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod cyfathrebiadau wedi dod i law oddi wrth unigolion a grwpiau er mwyn gwneud eu barn yn hysbys ac y byddai ymatebion yn cael eu llunio i'w sicrhau nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ac y byddai proses ymgynghori lawn y gallent gyflwyno'u barn fel rhan ohoni.

Dywedodd y Cynghorydd Gray ei fod yntau wedi cael cyfathrebiadau ynglŷn â'r mater ac nad canlyniad oedd yr adroddiad heddiw ac y byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal. Byddai adroddiad y Cabinet, pe cytunir arno, yn cynnig y cyfle i unrhyw un â buddiant yn y mater gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac roedd yn edrych ymlaen at weld yr ymatebion.

Dywedodd y Cynghorydd King ei fod wedi cael cyswllt ynglŷn â'r mater, ei fod wedi sicrhau preswylwyr nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud eto ac wedi dweud mai dim ond dechrau proses i gychwyn ymgynghoriad oedd yr adroddiad. Gofynnodd i'r Dirprwy Arweinydd ymateb yn llawn i lythyr technegol a oedd wedi dod i law ynglŷn â'r mater. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai ymateb yn cael ei baratoi, ond y gallai'r holl faterion a godwyd gael eu trafod fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol hefyd a'u dogfennu yn yr adroddiad terfynol a fyddai'n dod yn ôl i'r Cabinet i gael ei ystyried.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y manylion yn yr adroddiad a oedd ar gael ar-lein i'r rhai â buddiant yn y mater a allai ateb rhai cwestiynau, ond dywedodd y byddai pobl yn gallu mynegi unrhyw bryderon pellach trwy'r broses ymgynghori ffurfiol.

Mater ar gyfer penderfyniad Gweithredol oedd hwn. Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a oedd wedi'u cynnwys ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022 trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser
- Dirwyn Ysgol Feithrin Bute Cottage i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

(2) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022 trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

(3) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant i gael ei ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I awdurdodi cynnal ymgynghoriad statudol gan gydymffurfio â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

(2) I awdurdodi cynnal ymgynghoriad statudol gan gydymffurfio â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

(3) I sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ynghylch y cynigion."

11. ATODIAD G – **YMATEBION GAN GYRFF LLYWODRAETHU**

11.1. ATODIAD G (1) – YMATEB GAN LYWODRAETHWYR BUTE COTTAGE

Ysgol Feithrin Bute Cottage
Bute Lane
Oddi ar Grove Place
Penarth
CF64 2ET

Tel/Ffôn : (029) 20702957

E-bost: butecottNS@valeofglamorgan.gov.uk

Ymateb Corff Llywodraethu Bute Cottage i'r Ymgynghoriad ar y cynigion i ailgyflunio'r ddarpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022. Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â Chynnig 1.

Prif ymateb Corff Llywodraethu Bute Cottage i'r cynigion hyn: Ar ôl ystyriaeth a thrafodaeth briodol dydyn ni, y Corff Llywodraethu, DDIM yn cefnogi rhoi'r cynigion hyn ar waith. Rydym ni'n credu, pe bai'r cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith ar eu ffurf bresennol, y byddent yn debygol iawn o gael effaith negyddol ar safonau uchel iawn y ddarpariaeth ac addysg feithrin a gynigir ar hyn o bryd i blant 3-4 oed yn ein dalgylch.

I Y sefyllfa bresennol

Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn ddarparwr addysg y blynyddoedd cynnar sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n cynnig safonau addysg rhagorol i blant 3-4 oed yn ein dalgylch. Y tu hwnt i hynny, mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a gofalwyr i ddarparu ar gyfer datblygiad a lles ehangach y plant hyn mewn ffordd hynod arbenigol ac a werthfawrogir yn aruthrol. Cyrhaeddir y safonau hyn trwy gyfuniad o ddiwylliant; arweinyddiaeth a llywodraethu; staffio arbenigol; ymreolaeth ac annibyniaeth dros bennu'r cyfeiriad a'r gyllideb; ei pherthnasoedd â theuluoedd lleol, a'i lleoliad unigryw.

Mae'r Ysgol Feithrin wedi bodoli am dros 45 mlynedd. Yn ystod yr amser hwn mae wedi ennill ei phlwyf fel darparwr addysg y blynyddoedd cynnar unigryw ac eithriadol, sydd wedi bod yn meithrin ac yn datblygu cenedlaethau o breswylwyr lleol. Yn

rhannol mae hyn wedi cael ei alluogi gan leoliad hyfryd yr ysgol feithrin sy'n cynnig tir caeedig helaeth gyda gardd wych. Yn bennaf, fodd bynnag, y bobl sy'n gweithio yn Ysgol Feithrin Bute Cottage sy'n ganolog i'r hyn a ddarperir ac sydd wedi creu hinsawdd ddysgu mor benigamp ar gyfer y plant 3-4 oed sy'n ddigon ffodus i fynychu'r ysgol feithrin. Barn y Corff Llywodraethu yw bod yr Ysgol Feithrin, dros y 3 blynedd ddiwethaf, wedi bod yn cael ei harwain yn eithriadol o dda gan y Pennaeth Dros Dro Mrs Amanda Gould, a gefnogir yn ein gweledigaeth gan staff addysgu arbennig o brofiadol.

Mae pennaeth, staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage i gyd yn rhannu un weledigaeth – parhau i gynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar eithriadol i'r plant 3-4 oed yn ein dalgylch. Pobl sy'n dod â lleoedd yn fyw, gan eu lliwio â gwerthoedd ac ystyr ac, yn y pen draw, creu profiadau i'r rhai sy'n bresennol ynddynt.

Mae cryfder y teimlad ynglŷn ag Ysgol Feithrin Bute Cottage yn y gymuned i'w weld yn nifer y llofnodion ar y ddeiseb 'Achub Bute Cottage': fe ychwanegwyd dros 700 o lofnodion yn y 48 awr gyntaf.

Diwylliant

- Mae'r diwylliant yn Ysgol Feithrin Bute Cottage heddiw'n un lle mae profiad a lles y plentyn yn greiddiol i bob penderfyniad. Mae'r plant yn dysgu trwy chwarae. Mae rhieni'n aml yn siarad am 'hud' Ysgol Feithrin Bute Cottage. Mae plant yn ddiogel i archwilio ac yn cael eu meithrin yn dyner a'u cynorthwyo i ddod yn ddysgwyr hapus, uchelgeisiol, galluog sy'n unigolion hyderus, creadigol ac iach, yn barod i gyfrannu at ddyfodol Cymru a'r byd mawr.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

- Mae gan ein pennaeth dros dro Mrs Gould dros 40 mlynedd o brofiad addysgu a chaiff ei chydnabod yn arbenigwr yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar a hithau wedi cysegru bron i hanner ei bywyd gwaith i'r grŵp oedran hwn.
- Mae dull Mrs Gould wedi bod yn allweddol i gychwyn polisïau cynllunio ac addysgu 'yn y foment' gan baratoi ar yr un pryd ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yng nghyd-destun plant o oedran meithrin. Mae'n arweinydd y blynyddoedd cynnar blaengar.
- Ceir pwyslais cryf ar wella'n barhaus; sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion unigryw'r grŵp oedran targed. Mae staff wedi'u trwytho'n dda mewn ystod eang o ddulliau addysgegol ac yn defnyddio'u profiad, eu gwybodaeth a'u hymchwil i oleuo penderfyniadau. Maent yn cymryd rhan mewn ymchwil weithredol a rhwydweithio i sicrhau bod ethos a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu cwestiynu a'u herio'n gyson a'u bod yn flaengar. Mae'r plentyn yn greiddiol i bopeth a wna'r ysgol.
- Mae'r Corff Llywodraethu'n cynnwys casgliad cryf o unigolion sy'n angerddol iawn dros barhad y safonau addysg yn yr ysgol feithrin. Mae'n werth nodi bod gan bum aelod blant yn Ysgol Gynradd Evenlode hefyd a'u bod yr un mor angerddol dros safonau addysg yn Ysgol Gynradd Evenlode.

Staff Addysgu

- Mae gan y staff addysgu 20 mlynedd o brofiad addysgu yr un ar gyfartaledd, gyda'r mwyafrif o'r blynyddoedd hynny wedi'u cysegru i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae ganddynt bron i 200 mlynedd o brofiad addysgu rhyngddynt, gyda thros 150 mlynedd wedi'u cysegru i addysg y blynyddoedd cynnar.
- Mae athrawon yn Ysgol Feithrin Bute Cottage wedi dewis arbenigo yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar am eu bod yn rhannu angerdd ac ymrwymiad llwyr i addysgu plant 3-4 oed. Mae'r staff addysgu'n ystyried ei bod yn fraint gweithio gyda, ac addysgu'r plant bob dydd. Rydym yn llwyr ymwybodol na fyddai pob athro/athrawes mewn ysgol gynradd yn gymaint wrth eu bodd i weithio gyda'r grŵp oedran hwn.
- Mae'r staff hefyd yn dweud eu bod yn fodlon iawn ar eu swydd a'u bod yn ymfalchïo'n fawr yn y safonau rhagorol y maent yn eu profi o fod yn rhan o dîm sydd wedi ennill ei blwyf mor dda ac sy'n perfformio i safon mor uchel.
- Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage mewn sefyllfa ardderchog i ddarparu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru oherwydd y buddsoddiad sylweddol mewn staff hyd yma gan gynnwys datblygu'r Gymraeg, dysgu yn yr awyr agored a dysgu trwy chwarae yn y foment a arweinir gan blant. Mae'r datblygiad proffesiynol hwn wedi golygu bod Ysgol Feithrin Bute Cottage yn cael ei defnyddio fel ysgol arddangos gan gonsortiwm canol de Cymru i gynorthwyo ysgolion eraill i ddatblygu addysgeg debyg. Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith yn ddiweddar a hi yw'r Ysgol Feithrin gyntaf i wneud hynny ar draws pum Awdurdod Lleol CCDC. Ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at ennill y Wobr Arian. Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau'r Cenhedloedd Unedig' ac yn ymfalchïo yn y faith ei bod wedi ennill y Wobr Arian (Gorffennaf 2021). Mae'r ysgol yn gweithio gydag ysgolion eraill i rannu ei gwaith ar ei dull 'Yn y Foment' lle mae dysgu ac addysgu yn y cwestiwn, a hithau wedi cael ei chydnabod gan ei Phartner Gwella ac Ymgynghorydd y Blynyddoedd Cynnar CCDC. Mae hefyd wedi cael ei hyrwyddo fel enghraifft batrymol i ysgolion eraill mewn perthynas â'i gwaith ar Ysgol Goedwig a dysgu yn yr awyr agored.
- Mae lleoliad yr ysgol a'i staff tra hyfforddedig yn galluogi plant ag anghenion cymhleth i fwynhau amgylchedd ysgol brif ffrwd hygyrch ochr yn ochr â darparu mathau mwy cyffredin o gymorth datblygiadol ar gyfer plant o oedran meithrin, megis rhaglenni iaith a lleferydd ac emosiynol, a hynny'n fewnol. Mae staff yn cydweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael cymorth priodol. Mae'r ysgol wedi creu rhaglenni pwrpasol i blant y mae arnynt angen cymorth penodol. Rhaglen anogaeth yw SPARKLES, mae GAMERS yn helpu plant i ddysgu sut i chwarae'n briodol gydag amrywiaeth o ddarpariaeth yn cael ei chynnig ar draws yr amgylchedd dysgu, ac mae CWTCH yn rhoi cymorth i blant y mae arnynt angen cymorth gyda'u lles. Mae plant Mwy Abl a Thalentog yn mynychu'r Grŵp Meddwl ac yn arwain gwaith yr ysgol ar Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'r Cenhedloedd Unedig. Mae Maths Monsters yn cynorthwyo plant gyda sgiliau rhesymu rhifyddol a mathemategol. Mae SPARKLES wedi cael ei hadnabod gan Bartner Gwella fel rhywbeth i'w ddathlu a'i rannu gydag ysgolion/lleoliadau eraill.

Cyllideb

- Ar hyn o bryd darperir digon o arian ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage i gyflawni safonau rhagorol o ran y ddarpariaeth i blant 3-4 oed yn yr ysgol feithrin.
- Mae arweinwyr yr ysgol feithrin yn cael eu grymuso i gyfeirio'r defnydd o'r cyllid er budd pennaf ei phlant.
- Y lefel ddatganedig o gyllid ar gyfer disgyblion yw'r lefel o gyllid a ddyrennir gan y Llywodraeth y dylai'r holl blant 3-4 oed yng Nghymru ei chael ni waeth pa un a ydynt mewn ysgol feithrin annibynnol ynteu lleoliad wedi'i uno.

Annibyniaeth ac Ymreolaeth

- Mae bod yn ysgol annibynnol gyda'n safle, ein cyllideb, ein harweinydd, ein staff a'n corff llywodraethu ein hunain yn ein galluogi i greu ffocws cyflawn ar y plant 3-4 oed yr ydym yn eu haddysgu. Yn yr un ffordd â'r holl ysgolion meithrin eraill yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio ar gynnig darpariaeth ddysgu ragorol a sefydlu'r cwricwlwm Dysgu i Gymru newydd. Ond nid oes rhaid i ni gystadlu am adnoddau cyfyngedig i gyrraedd ein nodau a gwireddu ein huchelgais. Mae ein hannibyniaeth yn un o'r prif ffactorau sy'n ein galluogi i gyflawni ein safonau.

Lleoliad y safle

- Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage, gyda help y gymuned leol, wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol yn ei safle presennol; ac mae'n elfen hollbwysig o'r arlwy a phrofiad dysgu. Yn arbennig, mae'r pwyslais ar ddysgu trwy chwarae yn yr awyr agored a'r pwyslais cysylltiedig ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael effaith barhaus ar y rhai sy'n mynychu.

Pontio

- Mae'r ysgol feithrin yn cydnabod y broses bontio dyngedfennol o'r cartref i'r Ysgol Feithrin ac yn enghreifftio'r dull a argymhellir gan Donaldson o weithio law yn llaw gyda theuluoedd a gofalwyr i reoli'r broses bontio. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau Aros a Chwarae sy'n golygu bod rhieni a gofalwyr yn gallu arsylwi a chyfrannu at brofiad dysgu eu plentyn.
- Mae'r ysgol feithrin yn buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi â phroses bontio esmwyth i'r ysgol gynradd ar hyn o bryd hefyd. Nid yw'r Corff Llywodraethu'n ymwybodol o unrhyw bryderon a godwyd ynghylch ansawdd y perthnasoedd a'r cysylltiadau pontio hynny.

II Effaith y Newidiadau Arfaethedig yn y Dyfodol

Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud mae'r Corff Llywodraethu'n credu ei bod yn hynod debygol yr effeithir yn anffafriol ar nifer o ffactorau sy'n hanfodol i alluogi safonau cyfredol y ddarpariaeth. Gallai'r gyd-ddibyniaeth a'r berthynas rhwng y ffactorau hyn gael eu peryglu mewn modd tyngedfennol, gan arwain at waethygu safonau presennol y ddarpariaeth.

Diwylliant

- Ychydig o sicrwydd a roddir yn yr ymgynghoriad ynghylch y bwriad i ddeall a chynnal y diwylliant unigryw sydd o fudd i blant a theuluoedd Ysgol Feithrin Bute Cottage ar hyn o bryd. Ar y cyfan mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod risg arwyddocaol y gallai holl fanteision y diwylliant hirsefydlog yn Ysgol Feithrin Bute Cottage gael eu colli a'u disodli gan y diwylliant yn Evenlode.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

- Mae gan y Pennaeth yn Evenlode gwmpas gyfrifoldeb eang gyda'r plant ar hyn o bryd yn amrywio o 4-11 oed.
- Efallai na fyddai dulliau addysgu blaengar sy'n berthnasol yn benodol i blant 3-4 oed yn cael eu cefnogi mor dda dan un tîm arwain a rheoli sy'n gyfrifol am ystod oedran ehangach.
- Gallai uno ag Evenlode olygu y gallai'r ffocws unigryw a roddir i brofiad disgyblion 3-4 oed gael ei wanhau ymhlith y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn yr ysgol.

Staff Addysgu

- Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod mwy o ddatblygiad proffesiynol yn un o fanteision y broses uno; fodd bynnag, mae hyn yn methu â chydnabod arbenigedd blynyddoedd cynnar y staff drwy ddewis, a hefyd y datblygiad proffesiynol parhaus a wneir gan yr holl staff. Mae'r staff wedi bod yn cael eu sicrhau ers tro byd o'r pwyslais cyfredol ar ddatblygiad staff.
- Pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaenau, byddai staff addysgu Ysgol Gynradd Bute Cottage yn dod yn rhan o staff addysgu Evenlode. Ni all y Cyngor warantu na fyddai corff addysgu presennol Ysgol Feithrin Bute yn cael ei adleoli o fewn model integredig ehangach. Gallent gael eu symud i feysydd addysgu eraill a gallem golli mantais eu holl flynyddoedd o brofiad ac arbenigedd ar gyfer plant 3-4 oed.
- Nid yw'r ymgynghoriad yn diystyru'r posibilrwydd y bydd swyddi'n cael eu colli yn y dyfodol dan y cynigion newydd nac yn gwarantu, unwaith y bydd y cyfnod 'machlud' o 12 mis drosodd, nad yw staff yn wynebu risg o newidiadau anffafriol i'w Gradd bresennol, a/neu eu telerau ac amodau trwy newid cytundebol yn unol ag anghenion staffio Ysgol Gynradd Evenlode yn y dyfodol.

Cyllideb

- Ystyrir mai dadl ariannol yw'r un fwyaf sylweddol i gael ei chyfleu yn yr achos dros newid: i ddenu premiwm ariannol am bob disgybl a chael budd o arbedion effeithlonrwydd trwy uno.
- Ychydig o fanylion sydd ynglŷn â sut y bydd yr arbedion a nodir yn cael eu cyflawni.
- Ni fydd y broses uno'n mynd i'r afael yn llawn â'r diffyg o ran cyllid yn Ysgol Gynradd Evenlode.
- Mae'r sefyllfa wael o ran cyllido Ysgol Gynradd Evenlode yn fater parhaus a gwirioneddol iawn a ddylai gael ei ystyried ar wahân gan yr Awdurdod Lleol gan bod disgyblion yn Evenlode yn cael llai o lawer o gyllid na disgyblion eraill ym Mro Morgannwg.
- Ni fydd ychwanegu arian 48 yn rhagor o blant cyfwerth ag amser llawn (CagALl) ynghyd â 48 o blant CagALl i'w haddysgu yn gwneud unrhyw wahaniaeth ac mae'r gostyngiad arfaethedig o £70,000 mewn cyllid yn

debygol o effeithio'n anffafriol ar yr holl blant. Wedyn byddai plant meithrin newydd a ychwanegir yn rhan o'r ysgol gynradd 3 – 11 sy'n cael y lleiaf o gyllid yn y Fro.

- Mae'n annirnadwy na fydd y gostyngiad o £70,000 yng nghyfanswm y gyllideb rhwng y ddwy ysgol ar y cyd â disgwyliad bod y sefydliadau hefyd yn llyncu'r costau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu, yn effeithio'n anffafriol ar y safonau addysgol ar gyfer yr holl ddisgyblion.
- Ni ddarperir unrhyw sicrwydd y bydd buddsoddiad mewn darpariaeth feithrin yn cael ei chynnal ar y lefelau presennol yn y model ysgolion wedi'u huno.
- O ystyried yr uchod, barn y Corff Llywodraethu yw bod risg arwyddocaol y gallai buddsoddiad mewn darpariaeth feithrin gael ei gwanhau dros amser. Ar ben hynny, gallai'r arbedion effeithlonrwydd honedig wanhau'r ffocws unigryw ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a ddarperir gan Ysgol Feithrin Bute Cottage ar hyn o bryd gan arwain at effaith niweidiol sylweddol ar safonau addysg a phrofiadau a ddarperir gan yr Ysgol Feithrin ar hyn o bryd.

Annibyniaeth ac Ymreolaeth

- Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n darparu ymrwymiad cryf i gydnabod a chynnal yr elfennau unigryw o ddiwylliant ac ymreolaeth Ysgol Feithrin Bute Cottage sydd wedi peri iddi sicrhau statws fel ysgol a werthfawrogir gymaint ymhlith teuluoedd y mynychwyr presennol a blaenorol, ac ym Mro Morgannwg a Chonsortiwm Canol De Cymru.
- Mae risg arwyddocaol y byddai'r ddarpariaeth feithrin yn colli pob annibyniaeth ac ymreolaeth a'r holl fanteision a ddaw yn sgîl hyn o ran ffocws ar gyflawni rhagoriaeth ar gyfer plant 3-4 oed. Byddai'n syml yn dod yn rhan o Ysgol Gynradd Evenlode.
- Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at fantais un set o bolisïau ar draws pob grŵp oedran gan amlygu diffyg dealltwriaeth bod ar blant meithrin angen dull arbenigol. Dylid ystyried bod meddu ar un set o bolisïau'n un o anfanteision unrhyw broses uno oherwydd, eto, byddai'n niweidiol i unrhyw blant oed meithrin.

Lleoliad y Safle

- Rydym yn deall y byddai'r ddarpariaeth feithrin ar gyfer ein dalgylch, yn y tymor byr, yn aros yn y lleoliad presennol ar safle Ysgol Feithrin Bute Cottage. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen wedyn i ddweud: '*pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i adleoli'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode ar un safle*'. Ar ben hynny, nodir sawl gwaith bod y potensial ar gyfer cydleoli'n un o'r manteision.
- Mae rhai o fanteision canfyddedig y broses uno'n seiliedig ar adleoli safle Ysgol Feithrin Bute Cottage yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym ni'n pryderu bod rhannu'r broses ymgynghori'n ddau gam yn methu â chydnabod hyn. Ar ben hynny, rydym yn pryderu nad yw cryfder y teimlad mewn perthynas â manteision lleoliad safle Ysgol Feithrin Bute Cottage, gan gynnwys y ffaith ei bod mewn amgylchedd tawel a diogel a ddyluniwyd yn unigryw ar gyfer plant 3 i 4 oed, ac effeithiau negyddol posibl cydleoli gan gynnwys traffig a thagfeydd ychwanegol, sydd eisoes yn broblem sylweddol ar safle Evenlode, yn mynd i gael eu cymryd i ystyriaeth yn y cam cyntaf hwn.

Pontio

- Fel a nodwyd uchod, gwneir ymdrechion sylweddol yn barod i sicrhau pontio esmwyth rhwng Ysgol Feithrin Bute Cottage ac ysgolion cynradd perthnasol. Bydd y pontio rhwng y Meithrin a'r Derbyn wastad yn sylweddol, yn anad dim gyda'r newid o ddiwrnod ysgol rhan-amser i ddiwrnod ysgol llawn, a phontio i fod yn rhan o amgylchedd ysgol fwy. Ni fydd hyn yn newid os caiff y ddwy ysgol eu huno: byddai dal angen i blant addasu ac ymgynefino â lleoliad newydd Evenlode a diwrnod ysgol llawn. Nid yw'r Corff Llywodraethu o'r farn y byddai'r trefniadau pontio'n cael eu gwella'n sylweddol gan y broses uno, ac mae o'r farn y byddai unrhyw fanteision canfyddedig yn cael eu gwrthbwyso gan y risgiau o ran colli'r ffocws neilltuedig ar y blynyddoedd cynnar a nodir uchod.

III Yr Achos dros Newid

Mae'r adroddiad yn nodi bod darpariaeth ar gyfer plant 3 i 11 oed dan un tîm rheoli ac arwain yn ddymunol, ond nid yw'n darparu unrhyw dystiolaeth y bydd hyn o fudd i ddisgyblion Ysgol Feithrin Bute Cottage.

Rydym yn deall bod gan y Cyngor nod datganedig i 'symud tuag at fodel ysgolion cynradd ar gyfer addysg 3 i 11'. Mae diffyg rhesymeg gref a gweledigaeth gymhellol ar gyfer y model hwn yn yr ymgynghoriad ac nid yw'n gwneud rhyw lawer i gydnabod y manteision a gynigir gan luosogrwydd darpariaeth. Ychydig y mae'n ei wneud i gydnabod yr arlwy unigryw a ddarperir gan Ysgol Feithrin Bute Cottage, a hoffter teuluoedd lleol o Ysgol Feithrin Bute Cottage fel rhan hanfodol o wead eu cymuned.

Mae Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage ill dwy ar hyn o bryd yn cael eu cydnabod yn sefydliadau penigamp, ac iawn yw hynny. Mae ganddynt ddiwylliannau, safonau a phriodoleddau sefydliadol cryf, sydd eto'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan y gymuned leol. Fodd bynnag, maent yn sefydliadau gwahanol. Yn niffyg gweledigaeth gymhellol ar gyfer sefydliad wedi'i uno, barn Corff Llywodraethu Bute Cottage felly yw nad yw'r cynigion er budd pennaf plant Ysgol Gynradd Bute Cottage yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn ofni, pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaenau, y byddai effaith niweidiol sylweddol ar addysg, a phrofiad ehangach, ein disgyblion blynyddoedd cynnar.

Mae Corff Llywodraethu Bute Cottage yn ymrwymedig i weld y ddau sefydliad, a'r berthynas rhyngddynt, yn mynd o nerth i nerth.



Richard Disley, ar ran Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage.

From the Chair of Governors
Evenlode Primary School
Evenlode Avenue
Penarth
Vale of Glamorgan
CF64 3PD
Tel. 029 2070 2168

Always being our best,
for ourselves
and for each other

3 Tachwedd 2021

Parthed: Uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage

Annwyl Ysgolion yr 21ain Ganrif,

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn ar ran y Corff Llywodraethu yn Ysgol Gynradd Evenlode. Dyma ymateb ffurfiol yr ysgol i Ymgynghoriad Cyngor Bro Morgannwg ar ei gynlluniau i uno ein hysgol ag Ysgol Feithrin Bute Cottage.

Rydym ni'n credu bod anghenion plant yn cael eu diwallu orau pan fo ysgolion ac athrawon yn cydweithio ac yn gallu cynnal cysylltiadau agos â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac y gallwn adeiladu ar y cydweithio cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy ysgol er budd yr holl blant yn y ddwy gymuned. Rydym yn ymwybodol bod gan bob lleoliad ei hunaniaeth unigryw ei hun, ac rydym yn credu'n gryf y gellir cynnal hyn ag ethos a rennir. Byddai'r uno arfaethedig yn galluogi'r broses bontio rhwng y Meithrin a'r Derbyn i fod yn ddi-dor, ac effeithio'n gadarnhaol ar les a datblygiad emosiynol ein holl ddysgwyr.

Fe hoffem ddechrau trwy amlygu'r gwaith ardderchog sydd eisoes yn digwydd rhwng staff yn y ddwy ysgol i sicrhau bod y broses bontio ar gyfer disgyblion rhwng yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd mor esmwyth â phosibl. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi staff yn y ddwy ysgol i baratoi plant yn y ffordd orau bosibl i gofrestru yn Evenlode bob blwyddyn.

Fel yr ydym ni'n ei deall hi, mae'r cynigion presennol, pe cânt eu rhoi ar waith, yn cynnwys cadw'r ysgol feithrin ar ei safle presennol yn Bute Cottage a chyda'i chapasiti presennol. Er y byddai hyn yn dod yn rhan o Ysgol Gynradd Evenlode, nid oes unrhyw gynlluniau i unrhyw aelodau o staff golli eu swyddi, nac i newid unrhyw bersonél rhwng safleoedd. Mae'r llywodraethwyr yn Evenlode yn cydnabod y ddarpariaeth arbenigol ac arbenigedd staff yn Ysgol Gynradd Bute Cottage.

Manteision addysgol

Ein barn ni yw y byddai uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode yn dwyn y manteision addysgol canlynol:

- Trwy fod yn rhan o gymuned yr un ysgol o'r dyddiad y maent yn dechrau yn y ddarpariaeth Feithrin, bydd dysgwyr yn cael budd o broses bontio gryfach byth a bydd disgyblion meithrin yn gallu meithrin perthnasoedd â staff a phlant eraill. Byddai'r broses uno'n darparu mwy o gyfleoedd strategol ar gyfer cydweithio i gefnogi'r broses bontio o'r safle meithrin i mewn i'r dosbarthiadau

derbyn ar y safle cynradd. Bydd y ffaith bod staff yn adnabod plant o ddechrau eu taith ddysgu'n gwella dealltwriaeth am bob plentyn a'u cryfderau a'u hanghenion unigol.

- Gwella datblygiad proffesiynol staff – cydweithio dyfnach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn gwella darpariaeth y blynyddoedd cynnar hyd yn oed ymhellach, ynghyd â chyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y plant yn y cymunedau hyn.
- Gyda'r Cwricwlwm i Gymru'n cael ei roi ar waith yn statudol ym mis Medi 2022, byddai'r broses uno arfaethedig yn amserol o ran sicrhau bod dulliau cwricwlaidd y ddau leoliad yn cydblethu â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael sylfaen gadarn a chyson ar ddechrau eu taith academaidd.
- Bydd y bartneriaeth â Rhieni'n cael ei chryfhau ymhellach. Trwy fod yn rhan o'r un gymuned o'r dyddiad y mae plant yn dechrau yn y ddarpariaeth Feithrin, bydd Rhieni a Gofalwyr yn gallu meithrin perthnasoedd â staff ar draws y ddau leoliad yn rhwyddach.
- Bydd trefn lywodraethu'r ddau leoliad yn cael ei chryfhau, gyda'r cyrff llywodraethu wedi'u huno'n cydweithio i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer plant o'r Meithrin i Flwyddyn Chwech.

Manteision cymunedol ehangach

Rydym yn credu'n gryf bod llawer o gyfleoedd i wella'r gymuned dan y cynigion.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfathrebu gwell gydag aelodau o gymunedau'r ddwy ysgol, y mae'n naturiol bod trawsgroesiad mawr rhyngddynt o ystyried eu hagosrwydd daearyddol ac aelodau sy'n rhieni yn y ddwy ysgol.

- Cydlynu gwell mewn perthynas â threfniadau gollwng a chasglu yn yr ysgol gyda rhieni, gofalwyr a chyfleusterau gofal cofleidiol.

- Datblygu cyfleusterau gofal cofleidiol ar gyfer Rhieni, er enghraifft mynediad at glwb y tu allan i oriau 'Saplings'.

- Defnydd cynyddol o gyfleusterau'r ysgol ar draws aelodaeth gymunedol ehangach

- Cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol ar draws pob cyfnod o fewn addysg gynradd ar gyfer staff sydd â'u bryd ar ddatblygu eu gyrfaoedd ymhellach.

- Er na ddisgwylir i hyn fod yn arwyddocaol rydym hyd yn oed yn credu y bydd cysylltiadau â busnesau lleol a thrafnidiaeth yn cael eu gwella â dull cydgysylltiedig mwy lle mae'r meysydd hyn yn y cwestiwn.

Adleoli darpariaeth feithrin

Fel llywodraethwyr rydym yn cydnabod y lleoliad unigryw a gynigir yn Ysgol Feithrin Bute Cottage. Mae nifer o gryfderau a nodweddion pwysig sydd wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd ar y safle sy'n ei wneud yn amgylchedd dysgu ac addysgu delfrydol.

Mae ymgyrch cyhoeddus iawn i "Achub Bute Cottage" wedi tynnu ar emosiynau'r gymuned leol ac ennyn llawer o gefnogaeth yn gyhoeddus. Rydym hefyd yn cydnabod bod hyn yn camarwain y cyhoedd gan nad oes unrhyw gynlluniau dan y broses ymgynghori hon na chynlluniau i newid unrhyw un o'r adeiladau, lleoliadau na nodweddion hyn sydd mor annwyl gan gymaint o bobl.

Ar y cam hwn, fe hoffem ychwanegu mai ein bwriad, dan unrhyw gynllun dilynol i adleoli'r ddarpariaeth feithrin i safle Evenlode, yw gwneud popeth a allwn i drosglwyddo'r cryfderau hyn i gyd i'n safle ni. Rydym wir yn credu bod gan ysgol Evenlode ei lleoliad unigryw ei hun o fewn ein tiroedd tawel, helaeth a bod digon o le ar gyfer popeth a gynigir ar hyn o bryd i'r plant meithrin pan ddaw'r amser i ailgartrefu yn y dyfodol. Trwy gefnogi'r broses uno arfaethedig hon, rydym yn credu ein bod wir yn "Achub Bute Cottage".

Sylwadau ariannol

Ein barn gyffredinol ni yw y bydd uno ein hysgolion yn creu arbedion effeithlonrwydd cyffredinol a chyfleoedd i brynu ar y cyd a fydd yn arwain at rai arbedion ariannol. Fodd bynnag, nid ydym yn siŵr y bydd llawer o'r rhain yn cael eu gwireddu gyda'r ysgol yn gweithredu ar draws safle rhanedig.

Gan nad oes unrhyw gynlluniau i golli unrhyw swyddi a bod disgwyl i ni barhau i weithredu safle Bute Cottage fel y mae ar hyn o bryd, ni allwn weld o ble y gall y Cyngor ddod o hyd i'r arbedion o £70,000.00 o fewn cyllidebau'r ysgolion presennol, heb roi pwysau ar adnoddau ystafell ddosbarth sydd eisoes yn gyfyngedig.

Mae arbedion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer cynnal a chadw safleoedd, er enghraifft, yn annhebygol o allu cael eu caffael fel un contract oherwydd y gwahanol leoliadau ar gyfer gwaith y mae angen ei wneud ar draws y ddau safle. Mae contractau cynnal a chadw safleoedd hefyd yn fwy tebygol o gael eu caffael gan y Cyngor o gyllidebau cynnal a chadw cyfalaf neu ddatblygu amgylcheddol eraill ac efallai mai'r bwriad yw y bydd arbedion yn cael eu cyflawni o'r meysydd hyn ac nid fel a adnabuwyd o gyllidebau presennol yr ysgolion.

Rydym ni'n credu y bydd yr arbedion yn llawer llai i ddechrau nes bod yr ysgolion sy'n deillio o'r broses uno'n cael ei sefydlu a systemau gweinyddu'n cael eu sefydlu ac yn effeithlon. Yn wir, hoffem ofyn i'r Cyngor ystyried cynnal y cyllidebau a ddyrennir i'r ddwy ysgol ar eu lefelau cychwynnol i ddechrau o leiaf nes bod y broses uno wedi cael ei sefydlu a'n bod yn dod yn fwy ymwybodol o'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y safle meithrin. Bydd hyn yn sicrhau, ar hyn o bryd, ein bod yn gallu dyrannu adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i sefydlu'r cwricwlwm newydd a rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i wrthweithio unrhyw fylchau oherwydd y pandemig a all fod wedi dod i'r amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydym yn sicr yn cefnogi'r egwyddor y gellir adnabod arbedion fel rhan o'r broses hon ac y gallant gael eu gwireddu fel rhan o unrhyw nod strategol tymor hwy i gydleoli'r ysgol feithrin ar safle Evenlode mewn unrhyw broses yn y dyfodol.

Fel corff llywodraethu rydym yn cymeradwyo'r cynnig hwn ac yn gofyn i aelodau'r Cyngor gefnogi ei ddatblygiad. Rydym yn barod i gydweithio gyda'r Cyngor a llywodraethwyr Ysgol Feithrin Bute Cottage i ddatblygu cynllun pontio cynhwysfawr. Fel Llywodraethwyr, rydym hefyd yn addo cyflawni ein cyfrifoldeb i herio a chefnogi'r broses hon yn llawn ac yn deg wrth iddi gael ei datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod. Fel bob amser, caiff ein penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf y plant a'r staff yng nghymuned ein hysgol.

Yn gywir,



Stephen Burkitt-Harrington
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Chair of Governors

11.3. ATODIAD G (3) – LLYTHYR AGORED AT YSGOL GYNRADD COGAN

Ysgol Gynradd Cogan Primary School
'Encourage Effort: Celebrate Success'

Oddi wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr Hydref 2021

Llythyr Agored

Parthed: Uno Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan

Annwyl Gymuned Ysgol Cogan,

Rydym yn ysgrifennu'r llythyr hwn ar ran y Corff Llywodraethu yn Ysgol Gynradd Cogan. Ein bwriad yw nodi ein safbwynt ynghylch sut yr ydym yn bwriadu ymateb i Ymgynghoriad Cyngor Bro Morgannwg ar ei gynlluniau i uno ein hysgol ag Ysgol Feithrin Cogan.

Rydym ni'n credu bod anghenion plant yn cael eu diwallu orau pan fo ysgolion ac athrawon yn cydweithio ac yn gallu cynnal cysylltiadau clòs â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac y gallwn adeiladu ar y cydweithio sydd eisoes yn gryf rhwng ysgolion er budd yr holl blant yn y ddwy gymuned. Rydym yn ymwybodol bod gan bob lleoliad ei hunaniaeth unigryw ei hun, ac rydym yn credu'n gryf y gellir cynnal hyn gydag ethos a rennir. Byddai'r broses uno arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl i'r profiad o bontio rhwng y Meithrin a'r Derbyn fod yn ddi-dor, ac effeithio'n gadarnhaol ar lesiant a datblygiad emosiynol ein holl ddysgwyr.

Fe hoffem ddechrau trwy amlygu'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd rhwng staff yn y ddwy ysgol i sicrhau bod y broses bontio ar gyfer disgyblion rhwng yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd mor esmwyth â phosibl. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi staff yn y ddwy ysgol i baratoi plant yn y ffordd orau bosibl i gofrestru yn Cogan bob blwyddyn.

Mae'r cynigion cyfredol, pe baent yn cael eu rhoi ar waith, yn cynnwys bod y cyfnod meithrin yn aros ar ei safle presennol yn Ysgol Feithrin Cogan a chyda'i gapasiti presennol. Er y byddai'r ddarpariaeth yn dod yn rhan o Ysgol Gynradd Cogan, nid oes unrhyw gynlluniau i unrhyw staff golli eu swyddi. Mae'r llywodraethwyr yn Cogan yn cydnabod y ddarpariaeth arbenigol ac arbenigedd staff yn Ysgol Feithrin Cogan.

Manteision addysgol

Ein barn ni yw y byddai uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan yn dwyn

y manteision addysgol canlynol:

- Trwy fod yn rhan o'r un gymuned ysgol o'r diwrnod y maent yn dechrau yn y ddarpariaeth Feithrin, bydd dysgwyr yn cael budd o broses bontio gryfach byth a bydd disgyblion meithrin yn gallu meithrin perthnasoedd clos â staff a phlant eraill. Byddai'r broses uno'n darparu mwy o gyfleoedd strategol ar gyfer cydweithio i gefnogi'r broses bontio o'r safle meithrin i'r dosbarthiadau derbyn ar y safle cynradd. Bydd y ffaith bod staff yn adnabod plant o ddechrau eu taith ddysgu'n gwella'u dealltwriaeth am bob plentyn a'u cryfderau ac anghenion unigol.
- Gwella datblygiad proffesiynol staff – cydweithio dyfnach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn gwella darpariaeth y blynyddoedd cynnar ymhellach byth, a chyfleoedd i ddysgu a datblygu ar gyfer y plant yn y cymunedau hyn.
- Gyda'r Cwricwlwm i Gymru'n cael ei roi ar waith yn statudol ym mis Medi 2022, byddai'r broses uno arfaethedig yn amserol o ran sicrhau bod dulliau'r ddau leoliad o ran y cwricwlwm yn cydblethu â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd i sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr sylfaen gadarn a chyson ar ddechrau eu taith academaidd.
- Bydd y bartneriaeth gyda Rhieni'n cael ei chryfhau ymhellach. Trwy fod yn rhan o'r un gymuned o'r diwrnod y bydd plant yn dechrau yn y ddarpariaeth Feithrin, bydd Rhieni a Gofalwyr yn gallu meithrin perthnasoedd â staff ar draws y ddau leoliad yn rhwyddach.
- Bydd trefniadau llywodraethu yn y ddau leoliad yn cael eu cryfhau, gyda'r cyrff llywodraethu a unwyd yn cydweithio i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer plant o'r Meithrin i Flwyddyn Chwech.

Budd i'r gymuned ehangach

Rydym yn credu'n gryf bod llawer o gyfleoedd i wella'r gymuned dan y cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfathrebu gwell gydag aelodau o gymunedau'r ddwy ysgol, sy'n naturiol yn trawsgroesi ei gilydd o ystyried eu hagosrwydd daearyddol a rhieni sydd â phlant yn y ddwy ysgol.
- Cydlynu gwell o ran trefniadau ar gyfer danfon plant i'r ysgol a chasglu plant o'r ysgol gyda rhieni, gofalwyr a chyfleusterau gofal cofleidiol.
- Mwy o ddefnydd o gyfleusterau'r ysgol ar draws aelodaeth gymunedol ehangach.
- Cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol ar draws pob cyfnod o fewn addysg gynradd i staff sy'n awyddus i ddatblygu eu gyrfaoedd ymhellach.

Fel corff llywodraethu rydym yn cymeradwyo'r cynnig hwn ac yn gofyn i aelodau cymuned ein hysgol ymateb i'r broses ymgynghori ar ôl ystyried y llythyr agored hwn. Mae arnom eisiau sicrhau bod pob barn yn cael ei chynrychioli ac yn gallu cael ei hystyried yn llawn gan y cyngor pan ddaw'r amser. Fel Llywodraethwyr, rydym hefyd yn addo arfer ein cyfrifoldeb i gefnogi'r broses ymgynghori hon yn llawn ac yn deg.

Mae'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael yma:

www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 5 Tachwedd 2021. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gopi caled, yna cysylltwch ag aelod o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif ar 01446 709828 neu drwy'r e-bost yn 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Yn gywir,

Kath John

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Pennaeth: Susan Sibert BA Ed (Anrh), MA Ed, NPQH, NNEB

Pill Street, Cogan, Penarth, Bro Morgannwg CF64 2JS Ffôn: 029 20708497 e-bost: coganps@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: coganprimary.ik.org Twitter: @CoganPrimary Sefydlwyd ym 1884